Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

National Assembly for Wales
Children, Young People and Education Committee

Kirsty Williams, AC
Y Gweinidog Addysg
Llywodraeth Cymru

22 Mawrth 2019

Annwyl Kirsty

Y cod anghenion dysgu ychwanegol drafft: ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 11 Rhagfyr 2018, yn nodi manylion ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ynghylch y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol drafft (y Cod drafft), a rheoliadau eraill.

Mae Adran 4 o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi Cod anghenion dysgu ychwanegol, ac mae adran 5 o'r Ddeddf honno'n nodi'r weithdrefn ar gyfer gwneud y Cod. Yn unol â'r weithdrefn honno, rhaid i Weinidogion Cymru ymgynghori â phersonau penodedig cyn cyhoeddi Cod - ac mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn un o'r ymgyngoreion statudol a restrir yn y Ddeddf o dan adran 5(1), fel Pwyllgor perthnasol y Cynulliad Cenedlaethol.

Mae'r Pwyllgor yn falch iawn o ymateb i'r ymgynghoriad yn rhinwedd y rôl statudol honno. Wrth ymateb, roeddwn i'n credu y byddai hefyd yn ddefnyddiol rhoi rhywfaint o gefndir cysylltiedig â'n gwaith o graffu ar y Bil ADY, a'r broses a roddwyd ar waith i ystyried y Cod drafft. Credwn y bydd hyn yn helpu i roi cyd-destun ychwanegol i'n hymateb.

Ar ddechrau'r gwaith o graffu ar y Bil ADY, roedd y Pwyllgor yn awyddus i sicrhau bod y Cynulliad yn craffu arno cyn ei gyhoeddi. Yn unol ag argymhelliad 44 y Pwyllgor, diwygiwyd y Bil yng Nghyfnod 2 i ddarparu ar gyfer defnyddio gweithdrefn ychwanegol wrth wneud y Cod. Roedd hyn yn cynnwys ymgynghori â

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddPPIA@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddCYPE@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddCYPE
0300 200 6565

“Phwyllgor perthnasol y Cynulliad” a chael cymeradwyaeth y Cynulliad i'r Cod drafft.

Fel un o'r ymgyngoreion statudol, ystyriodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg y ffordd orau o fynd ati i graffu ar y Cod drafft er mwyn cyfrannu'n effeithiol at ymgynghoriad y Llywodraeth. Cytunodd y Pwyllgor i sefydlu 'gweithgor' a fyddai’n ymgysylltu’n uniongyrchol â rhanddeiliaid arbenigol i drafod manylion y Cod drafft ac i gyfrannu at ymateb ffurfiol y Pwyllgor i'r ymgynghoriad. Wrth wneud hynny, roeddem yn ymwybodol o’r angen i beidio â dyblygu ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ac aethom ati, ar sail hynny, i ymgynghori â rhanddeiliaid gan eu hannog i gyflwyno’u hymateb eu hunain i'r ymgynghoriad.

Prif bwrpas y gweithgor felly oedd cael barn rhanddeiliaid arbenigol am gynnwys y Cod, gan holi a yw'n bodloni anghenion rhanddeiliaid / ymarferwyr ac, yn bwysicaf oll, a fydd yn helpu i roi darpariaethau'r Ddeddf ADY ar waith yn effeithiol er mwyn cynorthwyo dysgwyr ag ADY.

Roedd aelodau'r gweithgor yn cynnwys cynrychiolwyr o nifer o sefydliadau a oedd wedi cyfrannu at waith y Pwyllgor pan fu’n craffu ar y Bil ADY yn ystod ei hynt drwy'r Cynulliad. Roedd y Pwyllgor am adeiladu ar y gwaith craffu blaenorol hwn, a'r gwaith manwl a wnaed ar y cyd â rhanddeiliaid. Roedd dwy ran i’r trafodaethau:

> **Rhan 1** - ystyriodd y gweithgor ddadansoddiad o’r ymrwymiadau a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y gwaith o graffu ar y Bil. Roedd y dadansoddiad hwn hefyd yn ystyried y materion a godwyd yn ystod y briff technegol a baratowyd gan swyddogion Llywodraeth Cymru ar 30 Ionawr 2019.
>
> **Rhan 2** - gofynnwyd i aelodau'r gweithgor arwain trafodaeth fwy cyffredinol ar y Cod drafft i dynnu sylw at unrhyw feysydd a oedd yn peri pryder, neu feysydd lle'r oeddent yn credu y byddai'r Cod drafft yn gweithio'n dda.

Cafodd y Pwyllgor sylwadau ysgrifenedig hefyd gan sefydliadau a oedd yn rhan o'r gweithgor, ond nad oeddent, yn anffodus, yn gallu dod i gyfarfod y Grŵp ar 13 Chwefror. Cafodd y gweithgor gopi o’r sylwadau ysgrifenedig ymlaen llaw a chawsant eu trafod yn y cyfarfod.

Cylch gwaith y Pwyllgor

Nodir ymateb manwl y Pwyllgor i gynnwys y Cod drafft yn yr Atodiad i'r llythyr hwn. Mae'r ymateb manwl hwn yn seiliedig ar y tabl a oedd yn sail i drafodaethau'r gweithgorau, ac mae'n cynnwys:

- manylion yr ymrwymiadau a gafwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod hynt y Bil drwy'r Cynulliad a sut y mae'r Cod drafft yn ymdrin â'r rhain (Rhan 1 o'r tabl)
- manylion materion eraill a godwyd gan randdeiliaid (Rhan 2 o'r tabl);
- crynodeb o farn rhanddeiliaid am yr ymrwymiadau a materion eraill; a
- barn a chanfyddiadau'r Pwyllgor am bob un o'r meysydd a drafodwyd.

Mae'r Pwyllgor yn annog Llywodraeth Cymru i ystyried yn ofalus y dystiolaeth a gyflwynwyd gan y gweithgor, a chanfyddiadau'r Pwyllgor. Rydym yn gwbl ymwybodol bod y broses o ddrafftio'r Cod yn broses barhaus a bod angen i'r Cod terfynol gael ei osod gerbron y Cynulliad a'i gymeradwyo ganddo cyn y gellir ei gyhoeddi. Felly, bydd y Pwyllgor yn ystyried ymateb Llywodraeth Cymru i'r ymgynghoriad ac, os yw'n briodol, bydd yn cyflwyno adroddiad i'r Cynulliad ei ystyried wrth benderfynu a ddylid cymeradwyo'r Cod.

Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i bawb a gyfrannodd at drafodaethau'r gweithgor, naill ai yn ystod y cyfarfod, neu drwy anfon sylwadau ysgrifenedig. Roedd y rhain yn cynnwys cynrychiolwyr SNAP Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, Coleg Brenhinol y Therapyddion Lleferydd ac Iaith, Plant yng Nghymru, Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol, Mudiad Meithrin, Cymdeithas Seicolegwyr Addysg, Cydffederasiwn y GIG a Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru.

Dyma'r tro cyntaf i'r Pwyllgor sefydlu gweithgor i ystyried darn penodol o waith, ac mae cyfraniad y rhanddeiliaid arbenigol hyn wedi helpu i sicrhau ein bod wedi craffu mor effeithiol â phosibl yn yr amser byr a oedd ar gael.

Mae'r Pwyllgor yn gwbl ymwybodol fod y rhanddeiliaid / sefydliadau hynny a fu'n ymwneud â'r grŵp hefyd am gyflwyno'u hymateb eu hunain o bosibl i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru - a byddem yn eu hannog i wneud hynny. Mae'n hanfodol bod Llywodraeth Cymru yn clywed gan y rhai sy'n darparu cymorth i'n plant a'n pobl ifanc – waeth beth yw eu rôl. Cafodd Deddf 2018 groeso cyffredinol.

Wrth gyflwyno'r system newydd sy'n cynorthwyo plant a phobl ifanc Cymru sydd ag ADY mae'n hanfodol ein bod yn creu'r Cod ADY iawn fel y gall fod yn sylfaen effeithiol i'r ddeddfwriaeth.

Yn gywir



Lynne Neagle AC
Cadeirydd

Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Drafft: Ymateb Drafft y Pwyllgor Plant Pobl Ifanc ac Addysg Drafft i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru

Rhan 1: Ymrwymiadau Llywodraeth Cymru yn ystod taith y Bil a sut yr ymdrinnir â'r rhain yn y Cod drafft

Mater		Manylion yr ymrwymiad	Tarddiad		A gafodd sylw yn y Cod Drafft?	Cyfeirnod yn y Cod Drafft
Maes trafod 1: Diffiniad o ADY						
1A) Diffiniad o ADY: anhawster wrth ddysgu		Sicrhau bod y cod yn egluro nad oes angen i blentyn fod ag anhawster sylweddol fwy ym mhob maes o'u dysgu er mwyn dod o fewn y diffiniad o ADY.	Derbyniodd LlC Arg. 3a, Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.		Dyfyniad: "Fodd bynnag, gallai plentyn neu berson ifanc fod yn fwy abl a thalentog a bod ag ADY. Er enghraifft, gallai plentyn neu berson ifanc fod yn fedrus iawn mewn un rhan o'i addysg, ond ei fod yn cael 'anhawster sylweddol fwy i ddysgu' na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran oherwydd anawsterau mewn rhannau eraill o'i addysg, neu efallai ei fod yn perfformio'n dda ar draws y cwricwlwm, ond bod ganddo anabledd sy'n ei atal neu'n ei lesteirio rhag defnyddio'r cyfleusterau addysg neu hyfforddiant..."	Paragraff 7.29
		Crynodeb o farn rhanddeiliaid O ran mater ehangach y diffiniad o ADY yn fwy cyffredinol, cododd y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar (NDCS) a Plant yng Nghymru bryderon y galli ysgolion **ostwng nifer y plant y maent yn eu hystyried yn rhai sydd ag ADY oherwydd**				

		y swm mwy o waith sy'n gysylltiedig â hyn (paratoi CDU statudol) dan y system ADY newydd o'i gymharu â'r system bresennol Gweithredu gan yr Ysgol ar gyfer AAA lefel isel. Er enghraifft, meddai Plant yng Nghymru: *"I think there is a danger that those children on just school action aren't automatically going to be transferred to have an IDP, because their needs might be seen as quite low and, whereas they're managing at the moment, to transfer them to an IDP is going to take a lot of work, a lot of time resource for the school, and is just not going to happen. So, I think we're going to see an artificial decrease in the number of children being defined as ALN, even though the definition remains practically the same. "* Codwyd y posibiliadau y gallai hyn ddigwydd yn ystod yr ymweliadau ag ysgolion fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i Gyllid Ysgolion hefyd, pan nododd un ysgol ei bod yn debygol na fyddai darpariaeth ar gyfer (rhai/llawer o'r) disgyblion ar Gweithredu gan yr Ysgol o dan y system ADY newydd oherwydd y lefel uwch o waith a fyddai'n ofynnol a'r diffyg adnoddau sydd ar gael. Fe'i trafodwyd hefyd yng nghynhadledd Fforwm Polisi Cymru ar 20 Tachwedd 2018 pan ddywedodd pennaeth ysgol arbennig bod gofyniad i ddarparu CDU ar gyfer pob plentyn ag AAA/ADY, gan gynnwys y rhai ar Gweithredu gan yr Ysgol yn torri'r system am nad yw ysgolion prif ffrwd yn barod am hynny. Nid y senario hwn a ragwelir yw bwriad Llywodraeth Cymru. Mae'r diffiniad o ADY yn Neddf 2018 **yn cadw'r un diffiniad yn ei hanfod** ag sy'n bodoli ar hyn o bryd ar gyfer AAA a bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd gan bob un o'r 100,000 fwy neu lai o ddisgyblion a nodwyd fel rhai ag AAA ar hyn o bryd Gynllun Datblygu Unigol ac y byddant yn cael y ddarpariaeth gyfatebol. Felly, os caiff ei gymhwyso'n gywir, ni ddylai'r diffiniad arwain at 'godi'r bar' o gwbl ar gyfer ADY nac unrhyw ostyngiad yn nifer y disgyblion a gefnogir.
		Ymateb y Pwyllgor (1A – diffiniad o ADY) Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod yr ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru wedi'i fodloni, a bod Paragraff 7.29 o'r Cod drafft yn amodi nad oes rhaid i blentyn fod ag anhawster ym mhob maes dysgu i ddod o fewn y diffiniad o ADY. Fodd bynnag, fel yr amlygwyd yn y crynodeb o farn rhanddeiliaid uchod, mae peth pryder ynglŷn â **chymhwyso'r** diffiniad ADY yn fwy cyffredinol gyda rhai awgrymiadau y bydd pwysau o ran adnoddau yn golygu bod yn rhaid i ddisgyblion ddangos lefel uwch o angen i gael eu barnu fel rhai sydd ag ADY ac sy'n gymwys i gael CDU. Felly, mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i egluro'n ddiamwys yn y Cod ADY nad oes newid i'r trothwy o ran beth yw ADY o dan y system newydd, o'i gymharu ag AAA ar hyn o bryd. Mae'r Pwyllgor yn bryderus iawn ei bod yn bosibl na fydd modd darparu ar gyfer disgyblion ar y cam Gweithredu gan yr Ysgol o dan y system ADY newydd oherwydd y lefel uwch o waith sy'n ofynnol a'r diffyg adnoddau sydd ar gael – gan nad dyma oedd bwriad y Ddeddf yn amlwg. Rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i'w gwneud yn gwbl glir yn y Cod a / neu drwy ymgyrch ymwybyddiaeth bod rhaid i hyn beidio â digwydd.

		Mae ein pryderon penodol y cyfeirir atynt yn yr adran hon yn ymwneud â'r effaith andwyol y gallai adnoddau annigonol ei chael ar y ffordd y mae'r diffiniad o ADY yn cael ei gymhwyso. Rydym wedi nodi ein barn ynglŷn ag adnoddau yn fwy cyffredinol o fewn mater g yn yr adran ar feysydd eraill. Er nad yw o reidrwydd yn berthnasol i'r Cod ei hun, mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf bod argaeledd adnoddau priodol (boed hynny'n gyllid neu'n staff) yn gwbl hanfodol i alluogi gweithrediad llwyddiannus y Ddeddf. Mae pryderon eraill mewn perthynas â meysydd trafod penodol, a materion penodol sy'n ymwneud ag adnoddau wedi'u dogfennu yn yr adrannau perthnasol yn ymateb y Pwyllgor.				
Maes trafod 2: Blynyddoedd Cynnar						
2A): Blynyddoedd Cynnar: diffinio ADY ac asesu datblygiad		Sicrhau bod y Cod yn egluro, yng nghyd-destun plant o dan oedran ysgol gorfodol, bod y cyfeiriad at 'ddysgu' yn y diffiniad o ADY yn cynnwys mathau mwy anffurfiol o ddysgu, megis dysgu drwy chwarae a rhyngweithio cymdeithasol. Dylai'r Cod nodi'n glir bod angen i asesiadau ar gyfer ADY mewn perthynas â phlant o dan oedran ysgol gorfodol ystyried sut mae plant bach yn datblygu, gan gynnwys dysgu drwy chwarae, a'u hanghenion o ran cael eu hysgogi a'u hannog a rhyngweithio'n gymdeithasol.	Derbyniodd LlC Arg. 3b, Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Derbyniodd LlC Arg. 18, Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg		Dyfyniad: "Wrth ystyried yr hyn a olygir wrth 'anhawster sylweddol fwy i ddysgu na'r mwyafrif o'r rhai eraill sydd o'r un oedran', dylid cofio mai mater o ennill gwybodaeth neu sgiliau yw dysgu, y gellir gwneud hynny mewn llawer o wahanol ffyrdd, ac y gall y broses amrywio yn ôl oedran y dysgwr. Er enghraifft, mae plant bach yn dysgu drwy chwarae a phrofiad, yn hytrach na thrwy ddulliau mwy ffurfiol sy'n fwy cyffredin i blant hŷn, ee cyfarwyddyd gan athro neu astudio. Dyfyniad: "Yn achos plant bach, dylai eu dysgu greu'r cyfle i ddatblygu eu gwybodaeth, eu sgiliau a'u dealltwriaeth o'r byd drwy chwarae arbrofol a phrofiadau. Efallai y bydd angen DDdY ar ffurf chwarae arbrofol ar blant ag ADY, neu DDdY arall i'w galluogi i fanteisio ar gyfleoedd/gweithgareddau chwarae priodol."	Paragraff 7.21 Paragraff 7.68

		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Roedd rhanddeiliaid yn croesawu'r cyfeiriadau at ddysgu a datblygu anffurfiol fel chwarae a phrofiadau ym mharagraffau 7.21 a 7.68 yn y canllawiau ar sut mae plentyn ifanc yn y blynyddoedd cynnar yn cael ei asesu ac ADY posibl yn cael eu hadnabod. Fodd bynnag, byddai'n well gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant pe bai asesiadau ar gyfer ADY yn y blynyddoedd cynnar yn **canolbwyntio ar ddatblygiad ac anghenion y plentyn ar yr oedran hwnnw**, yn hytrach na rhagamcanu pa anghenion fyddai gan y plentyn pe bai o oedran ysgol gorfodol: *"The decision is slightly different than for older children and young people and it's, if they don't have additional learning provision at this point, would that impact what they are like when they are of compulsory school age, as opposed to being focused on responding to the needs of the child at that point. (…)* *We would like to see it being a needs-led definition of ALN, not guesswork as to what the child may be presenting with in two years' time. "* I ryw raddau, mae hwn yn fater sy'n ymwneud â'r diffiniad yn y Ddeddf. Mae adran 2(3) yn diffinio ADY ymhlith plant yn y blynyddoedd cynnar yng nghyd-destun pa un a fyddai angen Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) arnynt pan fyddent o oedran ysgol gorfodol. Mae peth pryder o hyd pa un a fydd plentyn ifanc iawn yn cael ei weld gan y gweithwyr proffesiynol cywir i adnabod ADY. Nodwyd **efallai na fydd rhieni mewn sefyllfa i sylwi ar unrhyw broblemau dysgu neu ddatblygu**, yn enwedig gan eu bod o bosibl heb unrhyw ddisgwyliadau sylfaenol o ran yr hyn y dylai eu plentyn allu ei wneud mewn oedran penodol. Meddai Plant yng Nghymru: *"In terms of a child, they might not see any professionals, so it's actually up to the parents then to actually pick up on whether their child has got any delay. I don't know how you can mitigate that. It is really difficult. But it's sort of raising awareness of all of the professionals that the child might come into contact with. (…)* *[Somebody at a Welsh Government stakeholder event] was saying she had a child who was about 12 months old and she said she would only see the health visitor on one occasion maybe. But that is the difficulty. If the parent is not skilled enough to identify the ALN, there's going to be a gap in terms of the child being picked up, and, as we know, early intervention is key, really."* Cyfeiriodd CLILC at raglen Plentyn Iach Cymru Llywodraeth Cymru ac awgrymodd y gallai'r Cod greu mwy o gysylltedd â'r rhaglen hon a sicrhau bod anawsterau dysgu yn rhan o'r hyn yr oedd ymwelwyr iechyd yn chwilio amdano.

		Mae'r Cod drafft yn dweud bod sylwadau rhieni am eu plentyn “yn aml yn hanfodol er mwyn adnabod anghenion yn gynnar” ac y dylai awdurdodau lleol a darparwyr meithrinfeydd nas cynhelir “agored i sgyrsiau sy'n mynegi'r pryderon hyn a dylent fod yn barod i ymateb”.				
		Ymateb y Pwyllgor (2A - Blynyddoedd Cynnar: diffinio ADY ac asesu datblygiad) Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cyfeiriadau at ddysgu a datblygiad anffurfiol (megis chwarae a phrofiadau) ym mharagraffau 7.21 a 7.68 o'r Cod, sy'n ymwneud â sut mae plentyn ifanc yn y blynyddoedd cynnar yn cael ei asesu ac ADY posibl yn cael eu hadnabod. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn cytuno â'r farn a fynegwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru a oedd yn awgrymu y dylai asesiadau ar gyfer ADY yn y blynyddoedd cynnar ganolbwyntio ar ddatblygiad ac anghenion y plentyn ar yr oedran hwnnw, yn ogystal â rhagamcanu pa anghenion fyddai gan y plentyn pe bai o oedran ysgol gorfodol. Mae'r Pwyllgor yn derbyn na allai'r Cod ond gwneud hynny o fewn paramedrau'r diffiniad o ADY yn y Blynyddoedd Cynnar yn adran 2(3) o'r Ddeddf ADY - ond mae'n credu y dylai'r Cod gyfeirio at yr angen i ystyried anawsterau ac anghenion plentyn ifanc yng nghyd-destun ei oedran ar y pryd, yn ogystal â rhagamcanu pa un a fyddai angen darpariaeth ddysgu ychwanegol ar y plentyn unwaith y byddai o oedran ysgol gorfodol. Fel yr amlinellwyd yn y crynodeb o farn rhanddeiliaid, mae yna bryder nad yw'r Cod yn rhoi digon o arweiniad ar gynnwys gweithwyr proffesiynol perthnasol yn y gwaith o fonitro plant ifanc iawn. Credwn y dylai'r Cod nodi'n gliriach beth yw priod rolau ymarferwyr, er enghraifft ymwelwyr iechyd, o ran bod yn wyliadwrus o arwyddion o ADY ac amlygu pryderon. Er ein bod yn ymwybodol nad yw'r Cod wedi'i anelu'n uniongyrchol at rieni, gallai'r Cod hefyd nodi'r wybodaeth y gellid ei darparu i rieni i'w helpu i fod yn wyliadwrus o arwyddion cynnar o ADY a'r hyn y dylent ei wneud mewn achosion o'r fath. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cytuno â'r farn a fynegwyd y dylai'r Cod greu mwy o gysylltedd â rhaglen Plentyn Iach Cymru Llywodraeth Cymru i helpu i sicrhau bod anawsterau dysgu yn rhan o'r hyn y mae ymwelwyr iechyd yn chwilio amdano.				
2B) Blynyddoedd Cynnar: swyddog arweiniol yr ALl		Cod i ddarparu llwybrau clir i'w hatgyfeirio gan weithwyr proffesiynol yn y blynyddoedd cynnar. Crëodd y Ddeddf swydd arweiniol ALN Blynyddoedd Cynnar o fewn ALlau. Dywedodd y Gweinidog, Alun Davies, y byddai'r	Derbyniodd LlC Arg. 20, Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a diwygiwyd y Bil yng Nghyfnod 2.		Mae'r Cod yn pennu pa swyddogaethau gan yr ALl y disgwylir i swyddog arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar eu cyflawni, y profiad a'r arbenigedd gofynnol, yn ogystal â'u rôl a'u cyfrifoldebau strategol.	Paragraffau 8.38 i 8.47.

		Cod yn amlinellu beth sy'n rhan o'r rôl hon.				
		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Mae rhanddeiliaid yn croesawu'r rôl hon ond maent yn pryderu am lefel y cyfrifoldeb a'r llwyth gwaith posibl a allai syrthio ar un unigolyn ar gyfer ardal yr awdurdod lleol yn ei chyfanrwydd. Fe bwysleision nhw ei bod yn hanfodol bod Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar (ALNLO) wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol ac yn meddu ar y profiad angenrheidiol. Roedd rhai pryderon hefyd, ymysg y pwysau cyllido sydd ar awdurdodau lleol, y gallai staff gael eu gwasgu bron iawn, yng ngeiriau Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg, i mewn i'r swydd neu y gallai hynny gael ei ychwanegu at gyfrifoldebau eraill sydd ganddynt. Mae'r Cod yn nodi'r profiad a'r arbenigedd sydd a ddylai fod gan ALNLO ac y dylai awdurdod lleol ddynodi ALNLO dim ond os yw'n ystyried bod gan yr unigolyn gymwysterau a phrofiad addas i gyflawni disgwyliadau'r rôl. Dywedodd CLlLC fod Grŵp ADY Blynyddoedd Cynnar ADEW yn datblygu disgrifiad swydd ar gyfer swydd ALNLO. Dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd hefyd fod gwaith ar y gweill mewn un rhanbarth penodol i ystyried pa hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer yr ALNLO a pha hyfforddiant sy'n ofynnol ar gyfer y gweithlu sylfaenol. Mynegodd NDCS rywfaint o bryder nad oedd cyfeiriad at ymwneud yr ALNLO â gweithwyr proffesiynol arbenigol, er enghraifft athrawon plant byddar a phlant â nam ar eu golwg, tra bo'r rhain yn cael eu crybwyll ymhlith y gweithwyr proffesiynol y dylai Cydlynwyr ADY mewn ysgolion a SABau weithio gyda nhw. (Mae paragraffau 8.44 ac 8.46 o'r Cod drafft yn dweud y dylai'r ALNLO gydweithio gyda chyrff iechyd ac ymarferwyr iechyd, gan weithio gyda hwy tuag at fynd ati'n rhagweithiol i adnabod ADY yn gynnar a'u hatal rhag gwaethygu.) Roedd Plant yng Nghymru o'r farn y gallai fod mwy o gyfeiriad at y trydydd sector y dylai'r ALNLO weithio gydag ef. Mae paragraff 8.44 yn cyfeirio at "unrhyw asiantaethau neu wasanaethau eraill sy'n cydweithio'n agos â phlant o'r fath a'u teuluoedd", er bod yr enghreifftiau a roddir i gyd yn seiliedig ar y sector cyhoeddus. Tynnodd Swyddfa'r Comisiynydd Plant sylw at wrthdaro buddiannau posibl i'r ALNLO gan y byddai'n cymryd rhan yn y broses asesu yn ogystal ag ariannu darpariaeth. Dywedasant eu bod yn dal i ffurfio barn a ddylid gwahanu'r swyddogaethau hyn. Dadleuodd SNAP mai un o'r prif dasgau y dylid eu rhoi i ALNLO yw mapio'r arbenigedd a'r ddarpariaeth sydd ar gael ar hyn o bryd ar draws ardal eu hawdurdod lleol, gan nodi unrhyw fylchau, gan y gall hyn amrywio'n sylweddol.				

		Ymateb y Pwyllgor (2B - Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar) Roedd y Pwyllgor yn falch bod rôl Swyddog Arweiniol Anghenion Dysgu Ychwanegol y Blynyddoedd Cynnar (ALNLO) wedi'i sefydlu yn y Ddeddf, ac y byddai'r rôl honno'n gyfrifol am gydlynu swyddogaethau awdurdod lleol o dan Ran 2 o'r Ddeddf. Mae'r Pwllgor yn fodlon ar y cyfan bod y Cod yn pennu pa swyddogaethau gan yr ALl y disgwylir i'r ALNLO eu cyflawni, y profiad a'r arbenigedd gofynnol, yn ogystal â'u rôl a'u cyfrifoldebau strategol. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn cytuno â nifer o'r pryderon a godwyd ac yn credu y gellid cryfhau'r Cod yn y ffyrdd canlynol: • gallai'r Cod gynnwys cyfeiriad cliriach at ymwneud yr ALNLO â gweithwyr proffesiynol arbenigol, er enghraifft athrawon plant byddar a phlant â nam ar eu golwg. (cyfeirir at y rhain ymhlith y gweithwyr proffesiynol y dylai Cydlynwyr ADY mewn ysgolion a SABau weithio gyda hwy); • o ran pwy y dylai'r ALNLO weithio gyda hwy, dylai fod mwy o gyfeiriad at y trydydd sector. Mae paragraff 8.44 yn cyfeirio at "unrhyw asiantaethau neu wasanaethau eraill sy'n cydweithio'n agos â phlant o'r fath a'u teuluoedd" ond ymddengys bod yr enghreifftiau a roddir i gyd yn seiliedig ar y sector cyhoeddus. Nodwn fod y Cod yn manylu ar y profiad a'r arbenigedd y dylai ALNLO feddu arnynt ac na ddylai awdurdod lleol ond dynodi ALNLO os yw'n ystyried bod yr unigolyn yn meddu ar gymwysterau a phrofiad addas i gyflawni disgwyliadau'r rôl. Fodd bynnag, mae'n bwysig pennu'r lefel gywir o arbenigedd a phrofiad ar gyfer y swydd ALNLO a sicrhau bod yr hyfforddiant angenrheidiol ar gael i swyddogion gyrraedd y lefelau gofynnol. Pryder arall a godwyd yw bod y Ddeddf yn ei gwneud yn **ofynnol** i awdurdod lleol ddynodi ALNLO, tra bo'r Cod yn nodi mai dim ond os yw'n ystyried bod yr unigolyn yn meddu ar gymwysterau a phrofiad addas y dylai awdurdod lleol wneud hyn. Fodd bynnag, nid yw'n glir beth fyddai'n digwydd pe na bai awdurdod lleol yn gallu adnabod swyddog â chymwysterau a phrofiad addas, naill ai trwy ddynodi aelod presennol o staff neu drwy recriwtio. Mae hefyd yn aneglur beth fyddai trefniadau cyflenwi awdurdod lleol ar gyfer unrhyw gyfnod lle'r oedd yr ALNLO dynodedig yn absennol (yn enwedig os yw'r absenoldeb hwn yn un nad oedd modd ei ragweld a / neu yn un hirdymor). Cred y Pwyllgor felly y dylai'r Cod nodi'r camau y dylai awdurdod lleol eu cymryd i sicrhau y gellir adnabod swyddog addas ar gyfer y rôl ALNLO (gan gynnwys lle na fydd hyn yn bosibl ar unwaith), er mwyn gallu ateb gofynion y Ddeddf (a'r Cod). Credwn y dylai hyn gynnwys gwaith gan yr awdurdod lleol i nodi cronfa o swyddogion sydd â chymwysterau a phrofiad addas a all ymgymryd â rôl yr ALNLO fel cam wrth gefn.

Maes trafod 3: Anghenion Meddygol						
3A) Anghenion meddygol		Cryfhau'r Cod ADY er mwyn ychwanegu eglurder ynghylch pa bryd y bydd anghenion meddygol yn dod o dan y diffiniad o ADY a'r berthynas rhwng y system ADY ac anghenion gofal iechyd (e.e. y canllawiau statudol a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2017).	Derbyniodd LlC Arg. 48, Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.		Nodir amodau meddygol fel enghraifft o un o achosion ADY. Ymhelaethir ar hyn ym mharagraff 7.31: "Mewn rhai achosion, gallai anghenion gofal iechyd (er enghraifft, yn sgil cyflwr meddygol) gael effaith sylweddol ar brofiadau plentyn neu berson ifanc ac ar y ffordd y mae'n ymdopi yn yr ysgol neu mewn addysg bellach. Gallai'r effaith fod yn uniongyrchol, hynny yw ar ei allu gwybyddol neu gorfforol, ei ymddygiad neu ei gyflwr emosiynol. Gallai'r effaith fod yn anuniongyrchol ar yr un pryd, neu'n anuniongyrchol yn unig, er enghraifft drwy amharu ar ei allu i fanteisio ar addysg yn sgil effeithiau triniaeth neu'r effeithiau seicolegol y gall salwch neu anabledd difrifol neu gronig eu cael ar blentyn neu berson ifanc a'i deulu." Mae'r Cod yn amodi nad yw anghenion gofal iechyd eu hunain yn dynodi ADY; mae'n dal yn rhaid bodloni'r diffiniad o anhawster dysgu neu anabledd yn adran 2 o'r Ddeddf: "Fodd bynnag, ni fydd gan bob plentyn a pherson ifanc sydd ag angen gofal iechyd ADY. Fel yn achos dysgwyr eraill, y cwestiwn bob amser yw p'un a oes gan y	Paragraff 7.17 Paragraff 7.31 Paragraff 7.32

					plentyn neu'r person ifanc anhawster dysgu neu anabledd sy'n galw am DDdY. Bydd yna lawer o achosion lle nad oes gan blentyn neu berson ifanc sydd ag anghenion gofal iechyd anhawster dysgu nac anabledd, neu os oes ganddo, lle nad yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn galw am ddarpariaeth ychwanegol. Yn yr achosion hyn, dylid diwallu anghenion y plentyn neu'r person ifanc drwy ddulliau eraill." Mae'r Cod hefyd yn trafod sut y gall anghenion gofal iechyd arwain at angen i'r Dysgwr gael Addysg Heblaw yn yr Ysgol (EOTAS).	Paragraffau 23.14 i 23.15
		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Roedd rhywfaint o awgrym bod y Cod drafft yn dal i fod **yn gymharol annelwig ynghylch y cydgysylltiad rhwng anghenion meddygol ac ADY**. Teimlai rhanddeiliaid y **gellid cryfhau** paragraff 7.31 i gynnwys geiriau i'r perwyl 'gan gynnwys eu dysgu'. Fodd bynnag, roedd rhanddeiliaid yn derbyn yn gyffredinol bod y Cod drafft yn atgyfnerthu'r safbwynt yn y Ddeddf nad yw anghenion meddygol yn nodi ADY yn awtomatig, ond y gallant olygu mewn rhai achosion, neu hyd yn oed yn aml, bod y plentyn neu'r person ifanc yn profi anhawster sylweddol fwy wrth ddysgu, gan felly fodloni'r diffiniad yn adran 2 o'r Ddeddf. Teimlai rhanddeiliaid ei bod yn bwysig bod croesgyfeiriad digonol rhwng y Cod a chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru, *Cefnogi Dysgwyr ag Anghenion Gofal Iechyd* (2017).					
		Ymateb y Pwyllgor (Anghenion Meddygol) Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod y Cod yn cynnwys cyflyrau meddygol fel enghraifft o un o achosion ADY. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â rhai o'r pryderon a godwyd bod y Cod drafft yn gymharol amwys ynghylch y cydgysylltiad rhwng anghenion meddygol ac ADY. Credwn y gellid cryfhau paragraff 7.31 i gynnwys geiriau i'r perwyl 'gan gynnwys eu					

		dysgu' er mwyn ei gwneud yn gliriach y gall anghenion gofal iechyd effeithio ar ddeilliannau dysgu ac addysgol a, lle maent yn effeithio arnynt, y gallant ddynodi ADY. Er ein bod yn cydnabod y gallai hyn gael ei gwmpasu gan y geiriau “y ffordd y mae'n ymdopi yn yr ysgol neu mewn addysg bellach”, credwn y byddai o fudd ychwanegu eglurhad o’r fath at y paragraff hwn (ac y byddai hyn yn cyd-fynd yn fwy â'r dull a ddefnyddiodd y Pwyllgor wrth graffu ar y Bil, sef sicrhau bod cyfeiriad pendant at bethau o'r fath). Pryder arall yw nad yw'n ymddangos bod y Cod yn cyfeirio'n ddigonol at sut y byddai anghenion meddygol plant ifanc yn cael eu hystyried wrth asesu a fyddai ganddynt ADY, a chredwn y gellid cryfhau'r Cod yn hyn o beth.				
Maes trafod 4: Gwybodaeth / cyngor ac eiriolaeth						
4A) Gwybodaeth a chyngor diduedd		Sicrhau bod y Cod yn manylu sut y bydd ALlau yn trefnu bod gwybodaeth a chyngor diduedd yn cael eu rhoi. Roedd gwelliant i’r Ddeddf gan Lywodraeth Cymru yn ychwanegu’r term ‘diduedd’ at yr adran berthnasol, gan wrthod galwad y Pwyllgor y dylai orfod bod yn annibynnol.	Fe wnaeth LlC ymrwymo i hyn wrth wrthod Arg. 27, Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a oedd yn dweud y dylai gwybodaeth a chyngor fod yn annibynnol.		Mae Pennod 6 yn cynnwys cyngor a gwybodaeth. Dyfyniad: "Efallai y bydd awdurdod lleol yn dewis darparu'r cyngor a'r wybodaeth drosto'i hun. Fel arall, gallai'r awdurdod lleol weithio gyda darparwyr gwasanaethau allanol, gan gynnwys y trydydd sector, i ddarparu gwybodaeth a chyngor am ADY. Sut bynnag y bydd awdurdodau lleol yn penderfynu darparu'r wybodaeth a'r cyngor, wrth wneud eu trefniadau, rhaid iddynt roi sylw i'r egwyddor bod yn rhaid darparu'r wybodaeth a'r cyngor mewn ffordd ddiduedd."	Pennod 6 Paragraff 6.5
		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Ailedrychodd rhai rhanddeiliaid ar y cwestiwn a ddylai fod yn rhaid i wybodaeth a chyngor fod yn annibynnol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol iddynt fod yn ddiduedd ond nid yn annibynnol. Roedd rhai **galwadau am ddiffiniad yn y Cod o'r hyn a olygir gan y term diduedd**. Roedd SNAP yn amheus a allai awdurdodau lleol ateb y gofyniad i ddarparu gwybodaeth yn ddiduedd:				

		“There's the fundamental thing that, where decisions are made regarding resourcing, it's not in, necessarily, the provider's interest to ensure that a family is fully informed of everything, and I think the reference to leaflets and the reference to websites—have you ever looked at most of the websites that are in existence from local authorities for ALN? They are very poor. I know some are working at it on a regional basis now, but they're so poor, and they are not accessible to families.” Galwodd NDCS am drefniadau i sicrhau ansawdd yr wybodaeth a ddarperir, gan awgrymu y gallai fod rôl i Estyn: *“But I suppose this is an issue separate from the code, because I think it’s a point that’s going to need quality assurance and I really think that it’s something that we want to see Estyn being involved in and having a look at what information they’re putting out there to families, making sure that it’s impartial and making sure that it’s sufficiently detailed so that parents really do understand that if they’re unhappy, they have these proper rights to appeal, and that children, crucially, do understand that they have rights to disagree with adults. (…) And yes, I think the detail in this section of the code is not going to remedy the issue. ”* Dadleuodd SNAP fod y Cod drafft yn hynod o wan o ran gwybodaeth a chyngor i bobl ifanc ar ôl 16 a disgrifiodd sut y mae'r cynigion ar gyfer gwybodaeth a chyngor a rhyngweithio â theuluoedd wedi cael eu gwanhau dros amser: *But I just think it's very weak, and I have real concerns. We've been supportive of this from 2004 onwards, but we've gone from a Green Paper that talked about—parent partnership in the current code had a whole chapter; it's gone. In the Green Paper, we went to family partnership; it disappeared. We then went to information and advice in the White Paper and we've gone now to it being impartial, and something the local authority and schools are providing themselves. There will always be a need for independent—wherever it comes from; wherever—. This is not about SNAP Cymru. This is about parents having reliable and credible information. ”* Mae paragraff 6.9 o'r Cod drafft yn rhoi arweiniad ar sut y gallai awdurdodau lleol drefnu bod gwybodaeth a chyngor yn cael eu darparu gan sefydliad allanol, yn hytrach na, neu’n ogystal â, darparu’r rhain eu hunain. Fodd bynnag, mae SNAP yn teimlo bod y Cod drafft **yn awgrymu y gall awdurdod lleol fod yr unig ddarparwr** gwybodaeth a chyngor ac **nad yw’yn cydnabod bod llawer o ffynonellau eraill i’w cael”**. Galwodd SNAP hefyd am gynnwys cymorth wyneb yn wyneb yn y Cod fel enghraifft o’r modd y dylid darparu gwybodaeth a chyngor. Fodd bynnag, mae hyn wedi'i gynnwys fel enghraifft o’r fath ym mharagraff 6.7.
		Ymateb y Pwyllgor (Gwybodaeth a chyngor diduedd) Wrth graffu ar y Bil, roedd y Pwyllgor wedi galw am ddarparu gwybodaeth a chyngor yn annibynnol ar awdurdodau lleol. Gwrthodwyd hyn ar y pryd, ond roedd y Pwyllgor yn croesawu’r ffaith bod y Bil wedi'i ddiwygio i ddarparu bod y cyngor hwnnw'n 'ddiduedd'. Er y mynegwyd peth pryder a ddylai fod yn rhaid i wybodaeth a chyngor fod yn annibynnol, rydym

		yn glir nad yw hyn yn un o ofynion y Ddeddf. I'r graddau hynny, mae'r Pwyllgor yn fodlon y dylai'r Cod sicrhau'n ddigonol bod gwybodaeth a chyngor a ddarperir, neu a drefnir, gan awdurdodau lleol yn ddiduedd. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu y gellid cryfhau'r Cod yn y maes hwn i sicrhau nad oes rhagdybiaeth bod awdurdodau lleol yn darparu gwybodaeth a chyngor eu hunain ac i'w gwneud yn gliriach bod trefnu i wybodaeth a chyngor gael eu darparu'n allanol yn un ffordd o sicrhau eu bod yn ddiduedd.				
4B) Gwybodaeth a chyngor ar bwyntiau allweddol mewn addysg		Sicrhau bod y Cod yn ei gwneud yn ofynnol darparu gwybodaeth a chyngor yn ystod cyfnodau/adegau allweddol yn addysg dysgwr – cyfnodau pontio allweddol, mynediad, adegau pan fydd pobl ifanc yn gadael. Y Gweinidog, Alun Davies: "bydd y Cod ei hun yn adeiladu ar hyn gyda gofynion gorfodol o ran hysbysiadau ar adegau priodol."	Derbyniodd LlC Arg. 9, Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Wrth wrthod gwelliant 152 yng Nghyfnod 2.		Mae Pennod 19 o'r Cod yn ymdrin â chynllunio pontio. Mae paragraff 19.16 yn rhestru pwyntiau pontio cyffredin, gan gynnwys mynediad i addysg, rhwng cyfnodau allweddol, ac i addysg ôl-16 neu fyw'n annibynnol. Mae paragraff 19.12 yn cyfeirio at y ddyletswydd ar awdurdodau lleol i ddarparu gwybodaeth a chyngor ac y dylai hyn gynnwys dysgwyr sy'n agos at bontio.	Paragraff 19.16 19.12
		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Cododd NDCS a Plant yng Nghymru bryderon wrth ystyried i ba raddau y mae **trosglwyddo o addysg orfodol** wedi'i gynnwys yn y Cod drafft. Cyfeiriodd NDCS yn benodol at y **diffyg cyfeiriad at gyngor gyrfaoedd** a dadleuodd bod yr hyn sydd wedi'i gynnwys yn gam yn ôl: *"The number of references [to careers advice] is so small; I can't remember how many—it was like 16 or something, as compared to loads in the old code. So, it's a big backtrack. (…)* *"This chapter of the code [chapter 19, Planning for and supporting transition], it actually contains one of the paragraphs that worries me the most, and that paragraph is 19.54, which seems to be a massive backtrack in terms of careers advice. So, under the current code, anyone who has a statement of educational needs must have a careers adviser invited to their year 9 review. This paragraph seems to imply that the vast majority of ALN learners can access just mainstream careers advice."*				

		Mae Pennod 19 a pharagraffau 19.45 i 19.71 o'r Cod drafft yn benodol yn rhoi arweiniad ar drosglwyddo y tu hwnt i addysg orfodol.				
		Ymateb y Pwyllgor (Gwybodaeth a chyngor ar bwyntiau allweddol mewn addysg) Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r pryderon a godwyd gan y gweithgor bod diffyg manylder digonol yn y Cod o ran trosglwyddo allan o addysg orfodol. Mae hyn yn cynnwys diffyg cyfeiriad at gyngor gyrfaoedd a sicrhau bod hyn ar gael ar adegau allweddol a'i bod yn berthnasol ac yn briodol i ddysgwyr ag ADY. Mae'r Pwyllgor yn credu bod y rhain yn ddau faes pwysig iawn i ddysgwyr ag ADY, a bod yn rhaid cryfhau'r Cod i roi mwy o fanylion am y meysydd hyn.				
4C) Cynnig gwybodaeth a chyngor, osgoi a datrys anghytundebau, ac eiriolaeth ar ôl penderfyniadau allweddol, gan gynnwys annibyniaeth wrth osgoi a datrys anghytundebau		Dylai'r Cod sicrhau bod gwybodaeth a chyngor yn cael eu cynnig ar ôl gwneud pob penderfyniad allweddol (bob tro y bydd CDU yn cael ei adolygu, neu pan ddaw cynllun i ben), yn hytrach na dim ond ar ddechrau'r broses. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, Kirsty Williams, yng Nghyfnod 3: "defnyddir y Cod i nodi'r adegau amrywiol y mae'n rhaid — a dywedaf eto, y mae'n rhaid darparu gwybodaeth am wasanaethau eiriolaeth i blant a phobl ifanc. Bydd hyn yn berthnasol yn enwedig wrth roi gwybod am benderfyniadau."	Derbyniodd LlC Arg. 30, Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Wrth wrthod gwelliant 5 yng Nghyfnod 3, a oiedd yn galw am roi gwybodaeth a chyngor am argaeledd eiriolaeth ar adegau allweddol mewn addysg ac ar ôl penderfyniadau allweddol.		Mae'r Cod yn datgan y dylid darparu'r canlynol wrth roi gwybod am benderfyniadau nad oes gan y dysgwr ADY, bod eu cais am adolygiad CDU wedi'i wrthod, neu y bydd eu CDU yn dod i ben: "gwybodaeth am sut i weld trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer rhoi gwybodaeth a chyngor i bobl am ADY a'r system ADY." "manylion trefniadau'r awdurdod lleol cyfrifol ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau a'i wasanaethau eiriolaeth annibynnol." O ran osgoi anghytundebau a datrys anghydfodau, nododd swyddogion LlC na fyddai'r gofyniad yn adran 68 o'r Ddeddf bod hyn ar gael gan berson(au) a oedd yn "annibynnol ar y partïon" yn atal y person hwn rhag bod yn rhywun o fewn yr un awdurdod lleol, ar yr amod nad oedd y person wedi cael unrhyw ymwneud â'r teulu yn flaenorol ac nad oedd ganddo 'ddiddordeb personol yn y canlyniad'.	Paragraffau 8.17, 9.16, 16.20, 21.16, 25.8 Paragraffau 25.34 i 25.36, a drafodwyd yn Sesiwn briffio technegol Llywodraeth Cymru

					Ysgrifennodd y Pwyllgor at y Gweinidog Addysg yn gofyn am gadarnhad o ddehongliad Llywodraeth Cymru o'r term “annibynnol ar y partïon” yn yr adran hon o'r Ddeddf, a'r eglurhad a roddir ym mharagraff 25.36 o'r Cod drafft.	
		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Dywedodd NDCS y byddai'n ddefnyddiol petai pob un o'r paragraffau perthnasol yn y Cod yn nodi y dylai hysbysu am benderfyniadau allweddol a manylion yr hyn sydd ar gael fod mewn iaith glir ac mewn fformat sy'n ateb unrhyw ofynion hygyrchedd sydd gan y teulu. Fodd bynnag, mae canllawiau'r Cod drafft ar wybodaeth a chyngor yn fwy cyffredinol (paragraff 6.8) yn nodi y dylai gwybodaeth ddefnyddio iaith y gall plant, eu rhieni a phobl ifanc ei deall yn hawdd. Crynhodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd y cyfyng-gyngor o daro cydbwysedd rhwng cyflawnrwydd ym mhob pennod unigol o'r Cod a'i gadw'n ddogfen gryno a hygyrch: *“I think it’s difficult, isn’t it, because there are some bits—chapters 8 to 12—where it’s written for the different settings, and there’s repetition in there. But then, we don’t want chapter 6 or the content of that written into all of the other chapters as well. It is an incredibly long document already, and all we’ve talked about today is adding things into it rather than taking things away.”* Mae SNAP wedi ysgrifennu at y Pwyllgor am yr arweiniad a roddir yn y Cod ar **gymhwyso adran 68 o'r Ddeddf**, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau. Rhaid i hyn gynnwys darpariaeth gan “bersonau sy'n annibynnol ar y partïon”. Mae Gwasanaethau Cyfreithiol y Cynulliad yn paratoi nodyn i'r Pwyllgor ar y mater hwn, gan gynnwys **beth yw ystyr “annibynnol ar y partïon”** a'r cyfeiriadau yn y Cod drafft at “wedi ymwneud â’r plentyn” a “dim diddordeb personol yn y canlyniad” yn y cyd-destun hwn. Mae’r Pwyllgor wedi ysgrifennu at y Gweinidog Addysg i ganfod dealltwriaeth Llywodraeth Cymru am ddehongliadau o adran 68 a pharagraffau 25.34 a 25.36.				
		Ymateb y Pwyllgor (Annibyniaeth wrth osgoi a datrys anghytundebau) Mae'r Pwyllgor yn croesawu bod y Cod, ar amryw bwyntiau allweddol, yn nodi sut y byddai gwybodaeth a chyngor yn cael eu darparu. Rydym yn cydnabod bod paragraff 6.8 y Cod yn nodi y dylai gwybodaeth sydd ar gael gan awdurdodau lleol ddefnyddio iaith y gall plant, eu rhieni a phobl ifanc ei deall yn hawdd. Fodd bynnag, gallai'r Cod fynd ymhellach a chynnwys cyfeiriad ym mhob un o'r paragraffau perthnasol i ddatgan y dylai hysbysu am benderfyniadau allweddol a				

manylion ynghylch pa wybodaeth sydd ar gael fod mewn iaith glir ac mewn fformat sy'n bodloni unrhyw ofynion hygyrchedd sydd gan y teulu.

Codwyd pryderon manwl ynglŷn â chymhwyso adran 68 o'r Ddeddf, sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud trefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau. Mae pryderon yn ymwneud yn benodol â dehongli adran 68(3) sy'n datgan bod yn rhaid i drefniadau o dan adran 68 gynnwys darpariaeth i bartïon mewn anghytundeb gael gafael ar gymorth i'w ddatrys gan "bersonau sy'n annibynnol ar y partïon". Wrth ystyried y pryderon hyn, mae'r Pwyllgor hefyd wedi ystyried sut mae annibyniaeth yn cael ei dehongli o ran adran 69 ar wasanaethau eirioli.

Ysgrifennodd y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru ar wahân am hyn. Mae'r ymateb gan Lywodraeth Cymru yn syml yn cadarnhau bod Paragraff 25.36 o'r Cod drafft yn ymdrin ag annibyniaeth pobl sy'n helpu i ddatrys anghytundebau, ac yn nodi'r ffordd y dylid dehongli "person annibynnol" at ddibenion adran 68(3) o'r Ddeddf. Yn ei hymateb, mae'r Gweinidog yn mynd ymlaen i ddweud:

> "Ar hyn o bryd, nid wyf yn teimlo y byddai'n briodol imi roi dehongliad pellach i'r Pwyllgor y tu hwnt i'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y Cod drafft ar gyfer ymgynghori. Fodd bynnag, byddwn yn croesawu barn y Pwyllgor, ynghyd â barn ymatebwyr eraill i'r ymgynghoriad, wrth ystyried a yw'r dehongliad hwn yn briodol neu'n ddigonol, gan gynnwys barn wrth ystyried a ddylai'r Cod osod unrhyw ofynion ychwanegol (yn unol â'r pŵer i wneud hynny yn adran 4(5)(a) y Ddeddf) mewn perthynas â'r mater hwn). "

Mae'r Pwyllgor yn derbyn na all y Cod gynnwys unrhyw beth sy'n groes i a68(3) y Ddeddf, ond mae ansicrwydd ynghylch yr hyn y mae a68(3) yn ei olygu'n ymarferol. Cred y Pwyllgor nad yw'r dehongliad yn y Cod drafft yn ddigonol nac yn briodol gan nad yw'n ychwanegu unrhyw eglurder. Credwn fod yn rhaid i'r Cod ddarparu eglurder ar ddehongli adran 68(3) o'r Ddeddf, yn arbennig i ateb y materion canlynol:

- Os mai gyda'r ysgol y mae anghytundeb y teulu, ac na fu unrhyw ymwneud gan yr awdurdod lleol, a fyddai rhywun yn yr awdurdod lleol yn cael ei ystyried yn annibynnol? Er nad yw awdurdod lleol yn barti mewn unrhyw anghytundeb ar y pryd, mae yna botensial iddynt fod yn barti yn y dyfodol, er enghraifft os yw rhiant yn gofyn am ailystyried penderfyniad corff llywodraethu'r ysgol.
- Os yw'r achos wedi'i gyfeirio at yr awdurdod lleol, neu os yw'r awdurdod lleol yn ymwneud fel arall, a yw'r awdurdod lleol yn ei gyfanrwydd yn cael ei atal rhag gallu gweithredu fel "person annibynnol", neu a fyddai'n gallu ateb y gofyniad am annibyniaeth trwy, er enghraifft, ddefnyddio swyddog neu adran yn yr awdurdod nad yw'n gysylltiedig â'r achos?

		Mewn perthynas ag annibyniaeth gwasanaethau eirioli, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod yr adrannau perthnasol yn y Cod yn seiliedig ar ddehongli adran 69(3) o'r Ddeddf. Fodd bynnag, credwn y dylai'r Cod egluro i'r rhai cysylltiedig a fyddai'n bosibl i awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau eirioli annibynnol, ac os felly, o dan ba amgylchiadau? Mae'r Pwyllgor yn nodi bod gan y Gweinidog bwerau o dan adran 4(5)(a) o'r Ddeddf i osod gofynion ar awdurdod lleol mewn perthynas â threfniadau y mae'n rhaid iddo eu gwneud o dan adrannau 68 neu 69. Gan hynny, rydym o'r farn y dylai'r Gweinidog ystyried defnyddio'r pwerau hyn i egluro (a) i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn gallu darparu gwasanaethau osgoi a datrys eu hunain; (b) o dan ba amgylchiadau (os o gwbl) y mae cyflogai mewn awdurdod lleol yn gallu gweithredu neu wedi'i wahardd rhag gweithredu fel "person annibynnol" at ddibenion adran 68(3); ac (c) i ba raddau y mae awdurdodau lleol yn gallu darparu gwasanaethau eirioli annibynnol eu hunain.				
4D) Codi tâl am eiriolaeth		Sicrhau yn y Cod nad yw'r darpariaethau yn y Ddeddf ar gyfer gwasanaethau eirioli annibynnol yn golygu ei bod yn bosibl codi tâl ar ddefnyddiwr terfynol y gwasanaeth (h.y. byddai unrhyw godi tâl yn digwydd rhwng y darparwr a'r ALl yn unig).	Derbyniodd LlC Arg. 28, Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.		Dyfyniad: "Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ei drefniadau ar gyfer osgoi a datrys anghytundebau ar gael yn ddi-dâl yn y man darparu." "Rhaid i'r awdurdod lleol sicrhau bod ei wasanaeth eirioli yn cael ei ddarparu yn ddi-dâl yn y man darparu."	Paragraff 25.10 Paragraff 25.62
		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Roedd rhanddeiliaid yn **fodlon** bod y Cod drafft yn mynd i'r afael â hyn yn foddhaol.				
		Ymateb y Pwyllgor (Codi tâl am eiriolaeth) Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod ymrwymiadau Llywodraeth Cymru wedi'u cyflawni ac nad oes angen unrhyw newidiadau i'r Cod yn hyn o beth.				
4E) Esbonio beth mae eiriolaeth yn ei olygu (ddim yn uniongyrchol		Yn ystod y maes trafod hwn, trafododd y gweithgor fater sy'n ymwneud ag eiriolaeth nad oedd yn gysylltiedig â'r ymrwymiad neu ymgymeriad a roddwyd gan Lywodraeth Cymru (a oedd ar fater penodol sicrhau na fyddai'n rhaid i'r dysgwr dalu am wasanaethau eirioli annibynnol).				

gysylltiedig ag ymgymeriad LlC ond mae wedi'i gynnwys yma fel mater sy'n berthnasol i'r maes trafod hwn)		**Crynodeb o farn rhanddeiliaid** Roedd rhanddeiliaid yn pryderu bod y Cod drafft **yn peidio â chyfleu ystyr eiriolaeth** a'i fod yn dynodi ei fod yn ymwneud dim ond â rhoi cyngor i'r dysgwr. Dywedodd Swyddfa'r Comisiynydd Plant: *"It's not enough to just make the provision available, but young people and families need to understand what an advocate is. So, there needs to be more in that around those key decisions—there needs to be more about explaining and ensuring understanding of what advocacy means, because we know that that affects uptake for young people. Also maybe a reflection in here that advocacy is an amplification of the voice of the child or the voice of the family as well, rather than just another step within the disagreement, actually what the role of advocacy is. (…)* *And I think it could refer to what an advocate is. So, it could include a definition of what this code expects successful advocacy to represent. "* Ychwanegodd SNAP: *"They're quite confused in that role as well, Chair, because they talk about the advocate providing advice. That isn't the role of an advocate. What they've tried to do, because parent partnership has gone, is to merge the role a little, and, interestingly, in the code, originally it was for young people and their parents—'and their parents' has been taken out, so it's just the 'young person' now. But, you know, they are not there to advise; they are there to amplify the voice of the child."* **Beth mae'r Cod drafft yn ei ddweud?** Mae paragraff 25.58 o'r Cod drafft yn rhoi **rhestr o ddibenion** eiriolaeth: ▪ gynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc i fynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau a'u teimladau a sicrhau bod llais y plentyn neu'r person ifanc yn cael ei glywed; ▪ siarad ar ran y plentyn neu'r person ifanc os nad yw'r plentyn neu'r person ifanc yn gallu mynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau neu eu teimladau, neu os yw ond yn gallu mynegi eu safbwyntiau, eu dymuniadau neu eu teimladau yn rhannol; ▪ gweithio gyda'r plentyn neu'r person ifanc a darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth; ▪ cynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc i ddeall eu hanghenion, deall y prosesau perthnasol, deall eu hawliau, cymryd rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau a deall goblygiadau unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud; ▪ darparu gwybodaeth i'r plentyn neu'r person ifanc, eu helpu i ddeall eu dewisiadau a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth, a'u cynorthwyo i herio'r awdurdod lleol neu'r sefydliad addysg bellach os yw'n teimlo nad yw eu hanghenion yn cael eu diwallu;

		▪ cynorthwyo'r plentyn neu'r person ifanc i geisio datrys unrhyw broblemau neu bryderon sydd wedi'u nodi gan y plentyn neu'r person ifanc, helpu'r plentyn neu'r person ifanc i egluro eu cwyn a'u helpu i ddeall y canlyniadau y maent yn ceisio eu sicrhau; ▪ darparu cymorth i blant a phobl ifanc o ganlyniad i unrhyw heriau emosiynol sy'n deillio o'r broses, fel mynegi barn wahanol i farn eu rhieni.				
		Ymateb y Pwyllgor (Esbonio beth mae eiriolaeth yn ei olygu) Yn ystod trafodaethau'r gweithgor, codwyd nifer o bryderon ynghylch eiriolaeth, ac yn arbennig yr hyn yr oedd eiriolaeth yn ei olygu. Y prif bryder oedd nad yw'r Cod drafft yn cyfleu ystyr eiriolaeth a'i fod yn dynodi mai rhoi cyngor i'r dysgwr yn unig ydyw. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried hyn, ond mae'n credu bod paragraff 25.58 o'r Cod drafft yn ddigonol i esbonio beth yw ystyr eiriolaeth. Fodd bynnag, rydym yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried y safbwyntiau a fynegwyd gan randdeiliaid i ganfod a all fod angen unrhyw newidiadau i'r Cod.				
Maes trafod 5: Anghenion mwy cymhleth llai cyffredin						
5A) Anghenion mwy cymhleth llai cyffredin		Meddai'r Gweinidog ar y pryd, Alun Davies: "I have commissioned reviews of the evidence for effective interventions for a range of low-incidence, high-complexity needs, and these will be published as accessible guides for practitioners, to ensure they have informed, evidence-based decisions." Heb fynd mor bell â dweud y byddai hyn yn y Cod ond wedi cyfeirio at beidio â dymuno rhoi 'cynnwys y cod' mewn deddfwriaeth sylfaenol, felly gellid disgwyl iddo gyfeirio mewn rhyw ffordd at y mater hwn.	Wrth wrthod gwelliant 87 yng Nghyfnod 2, a oedd yn galw am sicrhau bod y Cod yn cynnwys llwybrau clir a chanllawiau ar achosion o anghenion mwy cymhleth llai cyffredin.		Yng nghyd-destun esbonio cynnwys priodol mewn CDU: "Mae plentyn neu berson ifanc sydd ag anghenion dwys neu gymhleth neu anghenion llai cyffredin yn debygol o fod angen mewnbwn a chyngor arbenigol, ac mae ei CDU yn debygol o gynnwys cyfraniadau gan amrywiaeth eang o asiantaethau a nodi amrywiaeth lawer ehangach o ymyriadau." Caiff ei nodi hefyd fel maen prawf wrth benderfynu ai corff llywodraethu ynteu'r awdurdod lleol ddylai fod yn gyfrifol am CDU.	Paragraff 13.2 Paragraff 9.44, 10.42

		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Roedd NDCS yn feirniadol o'r **defnydd o'r term "tebygol"** wrth ystyried a fyddai angen mewnbwn arbenigol ar blentyn sydd ag anghenion difrifol, cymhleth neu lai cyffredin, gan ddadlau y byddai hyn bob amser yn angenrheidiol. Tynnodd NDCS sylw hefyd at wahaniaeth rhwng y Cod drafft a'r Cod Ymarfer yn Lloegr (2015), sy'n ei gwneud yn ofynnol i asesiadau o ddysgwyr â nam ar eu golwg neu eu clyw gynnwys **ymgynghori ag athro cymwysedig plant â nam ar eu golwg neu eu clyw**. Mae'r Cod drafft yn eu cynnwys mewn rhestr o'r rhai y gellid ymgynghori â hwy ond mae'r NDCS yn siomedig iawn bod **nad yw'r agwedd hon mor gryf yng Nghymru ag ydyw yn Lloegr**. Roedd Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg (AEP) yn cytuno: *"You need all the information, not just in terms of reports, but sometimes it's very helpful, for example, when psychologists are assessing a child with severe hearing impairment, having somebody like a teacher of the deaf there, if signing's required and so on. That's really important."* Cyfeiriwyd at y **canllawiau a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru** ar anghenion mwy cymhleth llai cyffredin. Nid yw'n ymddangos bod cyfeiriad at y rhain yn y Cod drafft. Amlygodd Plant yng Nghymru bwysigrwydd sicrhau bod gan weithwyr proffesiynol fynediad at yr holl wybodaeth berthnasol sydd ar gael, a gofynnodd sut y dylid defnyddio'r canllawiau hyn.
		Ymateb y Pwyllgor (Anghenion mwy cymhleth llai cyffredin) Roedd y Pwyllgor yn siomedig na dderbyniwyd ei alwad a oedd yn nodi y dylai'r Bil ei gwneud yn ofynnol i'r Cod ddarparu llwybrau a chanllawiau clir ar achosion o anghenion mwy cymhleth llai cyffredin. Rydym yn cydnabod bod rhywfaint o gyfeiriad at hyn wedi'i gynnwys yn y Cod. Fodd bynnag, rydym yn cytuno â phryderon bod y cyfeiriad ym mharagraff 13.2 at y term 'tebygol' yn annigonol, ac yn credu y dylid ei gryfhau i ddynodi y bydd hyn yn 'bron bob amser' yn angenrheidiol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cytuno y dylai'r Cod gael ei gryfhau i gynnwys canllawiau cliriach ar bwy y dylid ymgynghori â hwy wrth asesu dysgwr ag anghenion mwy cymhleth llai cyffredin penodol. Er enghraifft, credwn fod rhaid i asesiad ar gyfer dysgwr â nam ar ei olwg neu ei glyw gynnwys athro cymwysedig plant â nam ar eu golwg / clyw, fel sy'n digwydd yn Lloegr. Dylid ymgorffori'r egwyddor hon yn y Cod i gwmpasu anghenion penodol yn gyffredinol yn hytrach na darparu rhestr benodol lle gallai hyn fod yn berthnasol. Er nad yw hwn o bosibl yn fater y dylid cyfeirio ato o fewn y Cod ei hun, byddai'n ddefnyddiol pe gallai Llywodraeth Cymru ddarparu manylion ar y sefyllfa ddiweddaraf o ran y **canllawiau ar anghenion mwy cymhleth llai cyffredin** a sut y dylid eu defnyddio.

Maes trafod 6: Cyfrifoldeb am CDUiau						
6A) Cyfrifoldeb am CDUiau		Cryfhau'r Cod er mwyn cynnig mwy o eglurder ynghylch pwy sy'n gyfrifol am Gynlluniau Datblygu Unigol (rhwng ALlau a chyrff llywodraethu ysgolion)	Derbyniodd LlC Arg. 6, Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.		Dyfyniad: "Fel rheol, dim ond yn yr achosion hynny lle mae anghenion y plentyn neu'r person ifanc yn fwy dwys, cymhleth neu brin y bydd awdurdod lleol yn penderfynu p'un a oes gan ddisgybl mewn ysgol a gynhelir ADY ac yn llunio a chynnal CDU. Y prif eithriadau yw pan fydd plentyn yn derbyn gofal gan awdurdod lleol yng Nghymru neu pan fydd y plentyn neu'r person ifanc yn mynychu mwy nag un ysgol neu sefydliad arall ("cofrestriad/ymrestriad deuol") – yn yr achosion hyn, yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol fel rheol am benderfyniadau ac am gynnal CDU, beth bynnag yw'r anghenion). Mae Para 9.19 yn rhoi'r sail y gall ysgol gyfeirio achos at yr awdurdod lleol – "na fyddai'n rhesymol iddi hi ei sicrhau" neu na all "benderfynu'n iawn" ar yr ADY. Mae hyn yn y Ddeddf ei hun. Mae'r cod yn rhestru nifer o feini prawf a allai benderfynu a yw'n rhesymol ai peidio i ysgol fod yn gyfrifol am CDU. Mae'r Cod yn dweud y dylai awdurdodau lleol sefydlu 'set o egwyddorion' y gellid eu defnyddio i benderfynu pwy ddylai fod yn gyfrifol.	Paragraff 9.2 Paragraff 9.19 Paragraff 9.44, 10.42 Paragraff 9.45 Sesiwn briffio technegol Llywodraeth

					Eglurodd swyddogion Llywodraeth Cymru y byddai'n anodd gosod trothwy cenedlaethol, unffurf gan fod trefniadau ariannu awdurdodau lleol ar gyfer AAA yn amrywio. Dyna pam eu bod yn disgwyl i awdurdodau lleol ddyfeisio eu dulliau gweithredu eu hunain. Fodd bynnag, gellid gwneud hyn yn rhanbarthol.	Cymru, 30 Ionawr 2019
		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Roedd consensws cyffredinol bod **angen mwy o eglurder a chanllawiau** ar hyn o fewn y Cod o hyd. Cyfeiriodd SNAP a Plant yng Nghymru at negeseuon anghywir gan rai awdurdodau lleol bod gwahaniaeth rhwng 'CDU statudol' a 'CDU anstatudol', a rhwng 'CDU a ariennir' a CDU 'nas ariennir'. Cydnabu CLlLC fod rhywfaint o ddryswch. Roedd NDCS yn rhagweld y bydd y ddarpariaeth i awdurdodau lleol gadarnhau set o egwyddorion y byddant yn eu defnyddio i benderfynu ai ysgol ynteu'r awdurdod ddylai fod yn gyfrifol am CDU yn wahanol ym mhob man ac yn arwain at loteri codau post. Awgrymodd CLlLC **nad yw awdurdodau lleol eu hunain o blaid hyn ac y byddai'n well ganddynt i'r Cod ddiffinio'r egwyddorion hyn**, ond gyda'r egwyddorion yn cael eu cymhwyso'n fwy penodol ar lefel leol: *"I must say, local authority officers were really not happy about this, because they were worried, there's a concern, that, as you say, individual authorities might go away and develop their own principles, which would not be legal, which would be challengeable at tribunal, and they don't want that. So, they did say perhaps the code should define these principles, which may be taken away, and kind of—you know, locally, they might be—. But at least—you know, broadly speaking, they would be defined in the code. Welsh Government's response was, 'If you think this won't work in practice, then you need to tell us what you think will.'* Crybwyllwyd y **gwahanol lefelau o ddirprwyo cyllid AAA**, gydag awgrym y byddai angen ystyried hyn pe bai set o egwyddorion neu feini prawf ar gyfer Cymru gyfan yn cael ei diffinio. Tynnodd CLlLC sylw at yr anawsterau penodol a allai fodoli wrth bennu cyfrifoldeb am CDU rhwng awdurdod lleol a SAB: *"Well, I think our biggest issue would be that it's the school, local authority responsibility of the IDP thing, the where, who, how is that decided, how is that going to work, and even more so actually between local authorities and FEIs. Because we've said all along that **local authorities have no responsibility for FEIs**, they have no funding for the post-16 learners attending FEIs, they have **no control over FEIs** and, as you say, we have now this potentially slightly*				

		bureaucratic system where local authorities will have to go to Welsh Government Ministers to ask them to tell an FEI to take back an IDP. Potentially, all those decisions are appealable." Mae gan Lywodraeth Cymru bwerau i wneud rheoliadau ynghylch trosglwyddo CDU o awdurdod lleol o dan a37 o'r Ddeddf ADY a phwerau ymyrryd o dan adran 57 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Yn ei hymateb i argymhelliad 8 adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor, dywedodd Llywodraeth Cymru y gallai hyn, yng nghyd-destun ADY, fod yn berthnasol i achosion lle mae SAB yn methu â chyflawni ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf ADY neu lle'r oedd yn gweithredu'n afresymol o ran ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf.				
		Ymateb y Pwyllgor (Cyfrifoldeb am CDUiau) Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r canllawiau yn y Cod ynghylch pwy sy'n gyfrifol am CDUiau (ALlau neu gyrff llywodraethu ysgolion). Fodd bynnag, roedd consensws cyffredinol ar draws y gweithgor bod angen mwy o eglurder a chanllawiau ar hyn o hyd yn y Cod. Yn benodol - mae'r Pwyllgor yn cytuno â phryderon y bydd darpariaeth i awdurdodau lleol sefydlu set o egwyddorion, y byddant yn eu defnyddio i benderfynu ai ysgol ynteu'r awdurdod ddylai fod â chyfrifoldeb dros CDU, yn arwain at amrywiad ymarferol sylweddol ar draws pob awdurdod lleol. Credwn y dylai'r Cod ei hun ddiffinio'r set o egwyddorion y dylai awdurdodau lleol eu defnyddio wrth benderfynu ai hwy, yn hytrach nag ysgol, sy'n gyfrifol am CDU. (Wrth wneud yr argymhelliad hwn, rydym yn cydnabod y byddai angen i set o'r fath o egwyddorion Cymru gyfan ystyried bod gan awdurdodau lleol drefniadau gwahanol ar gyfer dirprwyo cyllid AAA/ADY.) Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod yna botensial gwirioneddol ar gyfer sefyllfa annatrys mewn achosion lle nad yw SAB yn cymryd cyfrifoldeb dros asesu dysgwr ac unrhyw ddarpariaeth ddilynol, a bod yr awdurdod lleol heb bŵer i gyfarwyddo SAB yn yr un modd ag y mae ganddo bŵer mewn perthynas ag ysgol. Credwn y dylai'r Cod nodi sut y byddai Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r pwerau sydd ar gael iddi i sicrhau nad oes unrhyw gyfwng o'r fath yn cael ei achosi gan anghytundebau rhwng awdurdodau lleol a SABau ynghylch pwy ddylai fod yn gyfrifol am CDU.				
Maes trafod 7: Defnyddio Seicolegwyr Addysg						
7A) Defnyddio Seicolegwyr Addysg		Cod i nodi mecanwaith rôl Seicolegwyr Addysg yn y system ADY newydd, gan gynnwys lle mae	Derbyniodd LlC Arg. 11, Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant,		Cyfeirir at hyn sawl gwaith yn y Cod drafft. Mae ganddynt rôl o ran asesu, gan nodi'r ddarpariaeth angenrheidiol, a chynghori	Paragraffau 8.9, 9.55, 11.5, 12.9

		achosion yn cael eu hatgyfeirio gan ysgolion at ALlau.	Pobl Ifanc ac Addysg.		ar gyfrifoldeb rhwng ysgolion ac ALlau ar gyfer CDUiau. Yn benodol, mae ganddynt orchwyl i roi cyngor ar: ▪ "nodweddion addysgol, seicolegol neu eraill yr achos sy'n ymddangos yn berthnasol i anghenion addysgol y plentyn (gan gynnwys ei anghenion tebygol yn y dyfodol); ▪ sut y gallai'r nodweddion hynny effeithio ar anghenion addysgol y plentyn; a ▪ y ddarpariaeth a allai fod yn briodol i'r plentyn yng ngoleuni'r nodweddion hynny, boed yn DDdY neu'n ddarpariaeth arall. Mae hefyd wedi'i restru fel un o'r bobl y mae'n rhaid i ALl ymgynghori â hwy wrth adolygu ei ddarpariaeth ADY.	Paragraff 5.14
		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Dywedodd Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg (AEP) eu bod yn cydnabod bod gan seicolegwyr addysg rôl bwysig o ran asesu a nodi pa ddarpariaeth allai fod yn angenrheidiol, ond y **dylai eu hymwneud fod yn gymesur** â lefel ADY: *"EPs will only be involved in a certain number of IDPs. We wouldn't be involved in those that, I suppose, currently would be at school action, or we won't be involved, certainly, in a lot of those. We would certainly be involved where a child has much more complex needs or where our advice is needed to perhaps clarify for the school where they should go."(...)* Gan gyfeirio at y cynnydd tebygol yn ymwneud seicolegwyr addysg â sefydliadau addysg, awgrymodd Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg y bydd materion o ran capasiti, yr oedd CLlLC yn cytuno y gallent **greu tagfa yn y system os oes gorddibyniaeth** ar atgyfeirio at seicolegydd addysg neu ymgynghori ag un. Meddai Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg:				

		"One of my concerns would be the role now with FEIs because we haven't been so involved, but I can see that that's going to be a growing demand on our services, and do we have the capacity to deal with that? Right now, we're being faced with—in certain areas, where there's been restructuring, ed psych posts have been lost, and that is a major concern, a capacity issue. " Ychwanegodd CLlLC: *"I think we'd agree that there's an overreliance on referring something to or consulting an ed psych before you do something, not least because, as you say, they're fairly thin on the ground. (…)* *We would probably* ***query whether it is necessary for all these 'must consult an ed psych before doing something'*** *are necessary and appropriate. (…)* *The* ***focus needs to be on, as you say, where it is necessary*** *for an ed psych to be involved in developing the IDP. That's the key thing, really. There may be other consultations, possibly, that you might need to have before a school referred or asked a local authority to reconsider, or an FEI did, but it may not necessarily need an ed psych. "* Mae'r Cod drafft yn dweud y dylai ysgol neu SAB ymgynghori neu fod rhaid iddi/iddo ystyried ymgynghori â seicolegydd addysg, ond os yw awdurdod lleol yn ystyried achos, bod rhaid iddo wneud hynny. Mae'n debygol mai'r rheswm dros hyn yw bod achosion a atgyfeirir i gael eu hystyried gan awdurdod lleol yn debygol o fod yn fwy cymhleth a/neu ddifrifol. Esboniodd Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg **na fyddai 'ymgynghori' o reidrwydd yn golygu bod seicolegydd addysg yn cynnal asesiad llawn** ym mhob achos: *"But the word is 'consult', and if there's been prior involvement at whatever level—and usually we do know of the children with the higher level of need—often when we're going into schools, teachers will ask us about other children as well, perhaps in a more informal way. So, we've usually got a good idea of what is happening. But, as I say, when they say that the local authority must consult, to me that would mean getting—you know, we would have certain information, not necessarily that we've always got to go out there and do a full assessment, which obviously is time-consuming. Because we could look at what the school's providing and what other agencies are providing and come to some kind of conclusion based on that kind of information as well as talking to parents and the child. "*

		Ymateb y Pwyllgor (Defnyddio seicolegwyr addysg) Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r manylder yn y Cod sy'n nodi mecanwaith rôl Seicolegwyr Addysg yn y system ADY newydd, gan gynnwys lle mae achosion yn cael eu hatgyfeirio gan ysgolion at ALlau. Mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r farn a fynegwyd bod gan seicolegwyr addysg rôl bwysig o ran asesu a nodi pa ddarpariaeth a allai fod yn angenrheidiol, ond y dylai eu hymwneud fod yn gymesur â lefel yr ADY. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu bod y Cod drafft yn taro'r lefel gywir o fewnbwn ac ymwneud gan seicolegwyr addysg. Er nad yw hyn yn fater i'r Cod ei hun o bosibl, mae'r Pwyllgor yn pryderu am argaeledd seicolegwyr addysg, a'u capasiti i ateb unrhyw alw uwch os bydd goblygiadau'r Ddeddf (a'r Cod) yn cynyddu cyfraddau atgyfeirio at seicolegwyr addysg. Rydym yn annog Llywodraeth Cymru i sicrhau bod gwaith priodol yn cael ei wneud i gynllunio'r gweithlu a chapasiti mewn perthynas â seicolegwyr addysg, fel a ddylai ddigwydd yn wir ar gyfer unrhyw weithwyr proffesiynol perthnasol a fydd â rôl yn y system newydd. Hoffai'r Pwyllgor hefyd dynnu sylw at farn Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg mewn perthynas â'r Cod na fyddai 'ymgynghori' o reidrwydd yn golygu bod seicolegydd addysg yn cynnal asesiad llawn ym mhob achos.				
Maes trafod 8: Cynlluniau Datblygu Unigol (gan gynnwys trafnidiaeth)						
8A) Amserlenni ar gyfer asesiadau a Chynlluniau Datblygu Unigol		Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol bod y Cod yn pennu amserlenni ar gyfer cynnal asesiadau a pharatoi CDU.	Derbyniodd LlC Arg. 5, Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Y Bil wedi'i ddiwygio ar ôl Cyfnod 2.		Mae'r cod yn gosod ffenestr 12 wythnos i'r ALl benderfynu a hysbysu a oes gan y dysgwr ADY o'r adeg y cafodd ei ddwyn i'w sylw a pharatoi unrhyw CDU sy'n deillio o hynny. Ar gyfer ysgolion, mae amserlen o 35 diwrnod ysgol. Mae gan gorff y GIG chwe wythnos o'r adeg atgyfeirio i gydymffurfio â'i ddyletswydd i ystyried a oes triniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd. (Mae eithriad cyffredinol i'r amserlenni hyn yn berthnasol i fai nad ydynt yn ymarferol neu mae amgylchiadau y tu	Paragraff 8.16, 8.28 Paragraff 9.14, 9.24 Paragraff 15.31 Paragraffau 1.33 i 1.35

					allan i'w rheolaeth. Fodd bynnag, rhaid i bersonau perthnasol barhau i weithredu'n 'brydlon'.)	

Crynodeb o farn rhanddeiliaid

Teimlai nifer o randdeiliaid (NDCS, SNAP, CLlLC) y dylai'r Cod **ddangos yr amserlenni'n gliriach**, er enghraifft mewn diagram, tabl neu ei hymgorffori yn y siartiau llif sydd eisoes yn y Cod drafft.

Roedd rhywfaint o bryder hefyd gan NDCS a SNAP bod yr **eithriad cyffredinol** lle gallai cyrff llywodraethu, awdurdodau lleol neu fyrddau iechyd eithrio'u hunain o'r amserlenni gael ei ddefnyddio fel **'esgus dros beidio â gweithredu'**. (Noder bod y Cod drafft yn ei gwneud yn ofynnol iddynt weithredu "yn brydlon" hyd yn oed os yw'r eithriadau'n berthnasol.)

Nid oedd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru farn benodol ynglŷn â'r amserlenni ond dywedodd y byddai awdurdodau lleol yn debygol o ddadlau eu bod yn **rhy fyr**. Mae'r amserlen 12 wythnos o'r adeg y'i gwnaed yn ymwybodol o'r posibilrwydd bod gan ddysgwr ADY i'r adeg y mae'n rhaid bod wedi cwblhau CDU yn sylweddol fyrrach na'r cyfnod o 26 wythnos ar hyn o bryd.

Yn ôl Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd, lle'r oeddent wedi ymwneud yn flaenorol â'r plentyn, **fel arfer byddai cyrff y GIG yn gallu cydymffurfio** o fewn y cyfnod o 6 wythnos a roddir iddynt, ond gallai hyn gymryd **mwy o amser os oedd yn achos cwbl newydd iddynt**. Cyfeiriasant at darged y GIG o 14 wythnos rhwng atgyfeiriad a thriniaeth y byddai'n rhaid ei gyrraedd beth bynnag. Yn eu sylwadau ysgrifenedig, nododd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd y gallai rhwymedigaethau'r GIG tuag at y boblogaeth gyffredinol ac i 'ofalu am y rhai sydd â'r angen mwyaf yn gyntaf', yn ogystal â thargedau eraill Llywodraeth Cymru, achosi i'r cyfnod o 6 wythnos **beidio â chael ei gyflawni mewn rhai achosion**.

Yn ôl CLlLC, petai corff y GIG yn mynd â 6 wythnos o'r cyfanswm o 12 wythnos, yna ni fyddai hyn yn gadael llawer o amser i awdurdodau lleol.

Dywedodd SNAP y **byddai teuluoedd yn hapus iawn** gyda'r amserlenni byrrach, er eu bod yn cydnabod bod **ysgolion** (sydd â 35 diwrnod ysgol) yn **pryderu** ynghylch gallu cydymffurfio.

		Ymateb y Pwyllgor (Amserlenni ar gyfer asesiadau a CDUiau) Mae'r Cod yn nodi'n glir beth yw'r amserlenni ar gyfer cynnal asesiadau a pharatoi CDUiau, ond mae'r Pwyllgor yn cytuno â'r farn a fynegwyd y dylai'r Cod ddangos yr amserlenni'n gliriach, a dangos yr amserlenni perthnasol mewn modd gweledol, er enghraifft mewn diagram, tabl neu siart llif. Mae gwybodaeth glir, hygyrch am yr amserlenni yn hanfodol. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r dyheadau i osod amserlenni byrrach ar gyfer y system ADY newydd, o'i gymharu â'r system AAA ar hyn o bryd. Mae'r Pwyllgor hefyd yn fodlon ar yr 'eithriadau' fel y'u nodir yn y Cod, ynghyd â'r ddyletswydd i weithredu'n brydlon. Fodd bynnag, os nad yw'r amserlenni byrrach yn realistig ac yn gyflawnadwy, mae gan y Pwyllgor rai pryderon y gallai hyn arwain at ddefnyddio'r eithriadau'n ormodol. Croesewir amserlenni byrrach yn sicr ond dim ond os gellir dibynnu arnynt yn gyson. Felly, byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhesymeg y Llywodraeth dros bennu'r amserlenni, a sicrwydd ynghylch eu gallu i gael eu cyflawni a bod hyn yn cael ei gynnwys yn y Cod fel canllaw.				
8B) Templed ar gyfer CDU		Dylai'r Cod ddarparu templed gorfodol ar gyfer CDUiau.	Derbyniodd LlC Arg. 12, Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Y Bil wedi'i ddiwygio ar ôl Cyfnod 2.		Mae'r cod yn darparu templed gorfodol. Hefyd, templed gorfodol ar gyfer CDU i Blant sy'n Derbyn Gofal. Templed anorfodol ar gyfer cyfraniad y GIG i CDU	Paragraff 13.6, Atodiad A Atodiad B Paragraff 15.33, Atodiad C
		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Yn gyffredinol, mae rhanddeiliaid yn hapus bod y Cod drafft yn cynnwys templed ar gyfer y CDU, yn unol â gwelliant i'r Bil yn ystod ei daith. Fodd bynnag, **hoffai NDCS pe bai'r** templed: • yn cynnwys manylion cyswllt staff perthnasol; • yn atal rhag defnyddio disgrifiadau amwys o hawliau i ddarpariaeth; • yn cyfeirio at gludiant a llety;					

		• yn rhoi rhai canllawiau yn y templed ei hun • yn ei gwneud yn amlwg bod y blychau testun yn rhai y gellir eu hehangu a bod defnyddwyr y templed yn gallu rhoi cymaint o gynnwys ag y mae ei angen. Roedd NDCS hefyd yn pryderu nad yw Atodiad C, y ffurflen ar gyfer gweithwyr iechyd proffesiynol, yn eu hannog i amlinellu unrhyw gymorth y maent yn credu sy'n debygol o fod o fudd ond y maent yn amharod i'w ariannu, nac i esbonio pam y gwnaed penderfyniad i beidio â rhoi cymorth iechyd.				
		Ymateb y Pwyllgor (templed ar gyfer CDU) Mae'r Pwyllgor yn croesawu bod y Cod yn darparu templed gorfodol ar gyfer CDU, templed gorfodol ar gyfer CDU i Blant sy'n Derbyn Gofal, a hefyd templed nad yw'n orfodol ar gyfer cyfraniad y GIG i CDU. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn galw ar Lywodraeth Cymru i ystyried a allai'r templedi gael eu cryfhau gan yr wybodaeth ychwanegol a nodir yn y crynodeb o farn rhanddeiliaid. Credwn fod gwerth arbennig i'w gael o'i gwneud yn ofynnol i gyrff iechyd gynnwys manylion unrhyw gymorth sy'n debygol o fod o fudd ond nad ydynt yn gallu ei ariannu neu nad ydynt yn barod i'w ariannu, yn ogystal ag eglurhad pam eu bod wedi penderfynu peidio â chynnig unrhyw ddarpariaeth.				
8C) Trafnidiaeth		Cod i ystyried sut y gellir ymgorffori anghenion teithio mewn CDUiau. Dywedodd LlC y byddai'n archwilio sut y gallai'r Cod wneud y cysylltiadau angenrheidiol rhwng y ddau. Ysgrifennydd y Cabinet, Kirsty Williams, wedi ymrwymo'n ysgrifenedig a chadarnhau yn y Cyfarfod Llawn (Tachwedd 2017) "i wneud y diwygiadau angenrheidiol i'r canllawiau teithio gan ddysgwyr ac i gynnwys, yn rhan o'r cod ADY, arweiniad priodol ynglŷn ag ystyriaethau teithio mewn Cynlluniau Datblygu Unigol, gan gynnwys y broses o'u cynhyrchu".	Derbyniodd LlC Arg. 13, Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. Gohebiaeth 17 Tach 2017 a Llywodraeth Cymru yn gwrthwynebu gwelliant 80 yng Nghyfnod 2 a		Mae'r cod yn nodi y caiff y corff sy'n llunio neu ddiwygio'r CDU gynnwys adrannau pellach ar ôl yr adrannau gorfodol yn y CDU "er enghraifft, os oes angen cynnwys gwybodaeth am drefniadau cludo". Dyfyniad: "Efallai y byddai'n ddefnyddiol i'r rheini sy'n llunio neu'n cynnal CDUau ar gyfer plant neu bobl ifanc gofnodi mewn adran ychwanegol o'r CDU unrhyw drefniadau teithio ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc rhwng ei gartref a'r sefydliad addysgol. Gallai hyn fod yn ddefnyddiol iawn mewn rhai achosion, er enghraifft os yw'n llywio'r broses o gyflwyno'r DDdY." Mae'r cod hefyd yn nodi, wrth baratoi CDU, y "gall fod angen ystyried y trefniadau teithio". Mae'n cyfeirio at Fesur	Paragraff 13.8 Paragraff 13.74 Paragraff 13.76

			gwelliant 54 yng Nghyfnod 3.		Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 ac yn dweud, os codir y cwestiwn, y dylid trafod hyn gyda swyddogion trafnidiaeth yr ALl. Eglurodd swyddogion Llywodraeth Cymru bod y Cod dim ond yn rhoi arweiniad ar swyddogaethau o dan y Ddeddf ADY, ac nid ar ddeddfwriaeth arall fel y Mesur Teithio gan Ddysgwyr. Mae'r ddogfen ymgynghori yn nodi sut y mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu adolygu'r canllawiau ar gyfer Teithio gan Ddysgwyr i osod gofyniad ar awdurdodau lleol, pan fyddant yn asesu anghenion teithio dysgwyr er mwyn ystyried a ddylid darparu gwasanaeth teithio am ddim neu wasanaeth teithio â chymorth, rhaid iddynt ystyried a oes gan y sawl dan sylw anableddau neu anawsterau dysgu. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn a yw hyn yn ddigonol.	Sesiwn briffio technegol Llywodraeth Cymru, 30 Ionawr 2019 Paragraffau 1.60 i 1.68, dogfen ymgynghori Llywodraeth Cymru
		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Dadleuodd NDCS a SNAP y dylai'r Cod wneud mwy i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i drafnidiaeth ac y darperir ar ei chyfer, lle y bo angen, mewn CDUiau. Meddai NDCS: *"This **does absolutely nothing to allay the concerns** that we had. **'May' include additional research—it's so weak**. As far as I can see, if you say, 'This child cannot access their local school because the provision isn't adequate, and therefore we have to send them for this specialist provision a couple of local authorities over', then transport has got to be a part of that, because otherwise you can't get to the provision. So I have no idea—. It infuriates me, to be honest, as to why it's not more firmly in the code. "* Dywed Llywodraeth Cymru yn ei dogfen ymgynghori y bydd yn **ymgynghori ar newidiadau i *Teithio gan ddysgwyr: darpariaeth statudol a chanllawiau gweithredol (2014)* 'maes o law'**. Dim ond hysbysu y gall awdurdodau lleol defnyddio				

		eu pwerau dewisol y mae'r newidiadau arfaethedig a nodir, er bod rhaid iddynt ystyried anghenion dysgwyr ag anawsterau dysgu. Mae NDCS yn nodi yn eu sylwadau ysgrifenedig nad yw'r adolygiad/ymgynghoriad hwn wedi digwydd eto ac nad oes dyletswydd statudol yn canllawiau Teithio gan Ddysgwyr ar awdurdodau lleol i ddarparu trafnidiaeth am ddim i ddysgwyr ôl-16 ag ADY ar yn o bryd.				
		Ymateb y Pwyllgor (Trafnidiaeth mewn CDUiau) Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y Cod yn nodi y gall CDU gynnwys adrannau ychwanegol at yr adrannau gorfodol yn y CDU "er enghraifft, os oes angen cynnwys gwybodaeth am drefniadau cludo". Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn cytuno â phryderon a godwyd y dylai'r Cod wneud mwy i sicrhau y rhoddir ystyriaeth i drafnidiaeth ac y darperir ar ei chyfer, lle y bo angen, mewn CDUiau. Mae'r Pwyllgor felly o'r farn y dylai'r Cod wneud cyfeiriadau mwy pendant, diamwys at drafnidiaeth ac y dylai'r fersiwn derfynol ymgorffori unrhyw welliannau sy'n deillio o'r ymgynghoriad sydd ar ddod ar y canllawiau diwygiedig ar gyfer Teithio gan Ddysgwyr.				
8D) Cymorth interim tra bo CDU yn cael ei baratoi		Mae Adran 47 (3), a fewnosodwyd yn y Ddeddf yn ystod ei thaith drwy'r Cynulliad, yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cod gynnwys arweiniad ar sut i ddiwallu ADY dysgwyr yn y cyfamser tra bo CDU yn cael ei baratoi ar eu cyfer.	Derbyniodd LlC welliant 61 yng Nghyfnod 3.		Dyfyniad: "Os oes gan ddisgybl mewn ysgol a gynhelir yng Nghymru ADY, ond nad oes CDU yn cael ei gynnal ar ei gyfer, rhaid i'r ysgol, wrth gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â'r ysgol, gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y DDdY y mae ADY y disgybl yn galw amdani yn cael ei gweithredu."	Paragraffau 9.27 i 9.33 Paragraffau 10.26 i 10.31 (ar gyfer AB)
		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Ni chodwyd unrhyw bryderon.				
		Cymorth interim tra bo CDU yn cael ei baratoi Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y Cod yn cynnwys canllawiau ar sut i ddiwallu ADY dysgwyr yn y cyfamser tra bod CDU yn cael ei baratoi ar eu cyfer - fel sy'n ofynnol gan y Ddeddf. Nid oes angen unrhyw newidiadau i'r Cod yn hyn o beth.				

Maes trafod 9: Cymesuredd dyletswyddau ADY						
9A) Cymesuredd dyletswyddau ADY		Cod i ddarparu ar gyfer cymesuredd lle mae dysgwr ond wedi'i gofrestru ar gwrs sydd ag ychydig iawn o ddwysder, o ran y modd y mae'r dyletswyddau ar sefydliad addysg bellach neu awdurdod lleol yn berthnasol mewn achosion o'r fath. Dywedodd Alun Davies, y Gweinidog, na fyddai'n iawn caniatáu i gyrff llywodraethu wneud dyfarniad goddrychol a oedd, i bob pwrpas, yn atal dysgwr i arfer ei hawl i gael CDU statudol a'r ddarpariaeth y byddai'n ei nodi. Fodd bynnag, ychwanegodd y byddai'r Cod yn egluro'r mater o gymesuredd.	Wrth wrthod gwelliant 81 yng Nghyfnod 2.		**Nid yw'r Cod yn mynd i'r afael â hyn yn uniongyrchol**, er ei fod yn nodi: "Wrth ystyried anghenion rhesymol y person ifanc am addysg a hyfforddiant ac ar gyfer darpariaeth ddysgu ychwanegol, gall yr awdurdod lleol ystyried a yw dewisiadau amgen yn gydnaws ag osgoi gwariant cyhoeddus afresymol." Mae'r Cod hefyd yn trafod dyletswyddau sefydliadau addysg bellach i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer myfyriwr sydd ag ADY ond nad oes ganddo CDU. Eglurodd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ystod y sesiwn briffio technegol y byddai hyn yn berthnasol pan oedd dysgwr wedi'i gofrestru ar gwrs o hyd neu ddwysedd cyfyngedig, gan ychwanegu nad oedd yn ymarferol (nac yn angenrheidiol) cwblhau'r broses CDU er mwyn bodloni'r gofyniad i gymryd pob cam rhesymol.	Paragraff 12.36 Paragraffau 10.26 i 10.31
		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Roedd NDCS a Plant yng Nghymru yn pryderu y gallai unrhyw gyfeiriad yn y Cod at y ffaith nad yw dyletswyddau ond yn gymesur roi gormod o eithriad i SABau. Felly, **nid oedd rhanddeiliaid yn arbennig o bryderus** nad yw mater cymesuredd yn cael sylw uniongyrchol yn y Cod drafft. Ymddengys mai dull Llywodraeth Cymru yw y gall unrhyw fater sy'n ymwneud â chymesuredd gael ei **gwmpasu gan y ddyletswydd camau rhesymol** o dan adran 47 o'r Ddeddf a pharagraffau 10.26 i 10.31 o'r Cod.				

		Ar gyfer NDCS a Plant yng Nghymru, mae'r mater yn ymwneud yn fwy â sicrhau bod y cysylltiadau priodol yn cael eu creu â dyletswyddau rhagflaenol i wneud addasiadau rhesymol a **Deddf Cydraddoldeb 2010**.				
		Ymateb y Pwyllgor (Cymesuredd dyletswyddau ADY) Mae'r Pwyllgor yn nodi nad yw'r Cod yn darparu'n uniongyrchol ar gyfer cymesuredd lle mai dim ond ar gwrs sydd ag ychydig iawn o ddwysder y mae dysgwr yn cofrestru yn y ffordd y mae'r dyletswyddau ar SAB neu awdurdod lleol yn berthnasol mewn achosion o'r fath. Fodd bynnag, rydym yn croesawu'r cyfeiriad at hyn ym mharagraff 12.36, ac rydym yn fodlon bod y ddyletswydd ar SABau i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r ddarpariaeth angenrheidiol ar gyfer myfyriwr a allai fod ag ADY ond nad oes ganddo CDU, yn galluogi cymesuredd yn y ffordd y mae SABau yn cyflawni eu dyletswyddau. Yn gysylltiedig â'r uchod, rydym hefyd yn cytuno â'r farn y dylai'r Cod greu cysylltiadau priodol â dyletswyddau/rhwymedigaethau SABau i wneud addasiadau rhesymol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.				
Maes trafod 10: Byrddau Iechyd						
10A) Rolau byrddau iechyd		Bod y Cod yn egluro rolau'r Swyddog Arweiniol Clinigol Addysg Dynodedig (DECLO) a'r cydlynydd iechyd ym mhob bwrdd iechyd.	Derbyniodd LlC Arg. 3a, Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.		Mae'r cod yn darparu trosolwg gymharol fanwl ar rôl DECLO ond **nid ar yr ail rôl, sef 'cydlynydd iechyd'**, y gwnaeth Llywodraeth Cymru gyflwyno'r cysyniad ynglŷn â hi yn ystod y broses o graffu ar y Bil a'i gynnwys ym Memorandwm Esboniadol fersiwn derfynol y Bil fel y'i pasiwyd. Bwriad datganedig Llywodraeth Cymru oedd y byddai'r DECLO yn gweithredu ar lefel uwch, strategol ac y byddai 'cydlynydd iechyd' yn cyflawni swyddogaethau o ddydd i ddydd. Fodd bynnag, **nid yw'n ymddangos bod y rôl hon yn cael ei thrafod** yn y Cod drafft. Yn dilyn y sesiwn briffio technegol, eglurodd swyddogion Llywodraeth Cymru	Paragraffau 15.37 i 15.53 Sesiwn briffio technegol Llywodraeth

					fod ystyriaeth wedi'i rhoi i'r syniad bod yr ail rôl 'cydlynydd iechyd' yn fodd posibl i fyrddau iechyd gefnogi rôl y DECLO, ond ni chafodd y syniad hwn ei fabwysiadu fel gofyniad. Ers hynny, mae Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid ers hynny wedi diystyru'r opsiwn, neu o leiaf nid ydynt o blaid ei argymell o fewn y Cod.	Cymru, 30 Ionawr 2019
		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Esboniodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd y bydd camau gan y byrddau iechyd i gyflawni eu dyletswyddau yn cael eu cydlynu gan y DECLO, sydd â'r rôl strategol a sefydlwyd gan y Ddeddf. **Cytunwyd**, felly, nad **mater gweithredol** iddynt hwy yw sut yn union y mae byrddau iechyd yn rheoli hynny, pa un ai trwy ail rôl, sef cydlynydd iechyd, ai peidio.				
		Ymateb y Pwyllgor (Rolau byrddau iechyd) Mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y Cod yn rhoi trosolwg cymharol fanwl o rôl DECLO ond mae'n nodi nad yw'n ymddangos bod y Cod yn cynnwys unrhyw fanylion ar yr ail rôl 'cydlynydd iechyd' a drafodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod hynt y Bil. Felly, mae'r Pwyllgor yn rhagdybio y bu symudiad oddi wrth yr ail ddull cydgysylltydd iechyd, rhwng y Memorandwm Esboniadol terfynol i'r Ddeddf (Tachwedd 2017) a'r Cod drafft (Rhagfyr 2018). Er bod y Cod yn rhoi manylion am rôl DECLO, mae'n hanfodol bod y Cod yn darparu canllawiau digonol a phriodol ar sut y gall byrddau iechyd sicrhau bod y DECLO yn cael cefnogaeth ddigonol ac yn gallu canolbwyntio ar natur strategol y rôl ac nad yw'n cael ei lethu'n ormodol gan dasgau gweinyddol o ddydd i ddydd.				
10B) Amserlen ar gyfer darparu gwybodaeth a chymorth		Bod y Cod yn gosod amserlen y mae cyrff (fel byrddau iechyd) yn gorfod cydymffurfio â chais gan ALl am wybodaeth neu gymorth arall.	Wrth wrthod Arg. 8 gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yng Nghyfnod 1, dywedodd LlC mai'r Cod, yn hytrach nag		Mae'r Cod yn nodi bod rhaid i berson perthnasol o dan y Ddeddf gydymffurfio â chais yr awdurdod lleol am wybodaeth neu gymorth arall o fewn 6 wythnos oni bai fod amgylchiadau y tu hwnt i'w rheolaeth.	Paragraff 15.12

			wyneb y Ddeddf, oedd y lle gorau i fanylu ar amserlenni.			
		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd nad oedd sylwadau ganddo yn ychwanegol at y rhai a wnaed o dan faes trafod 8 ynglŷn â'r amserlenni ar gyfer CDUiau. Roedd y rhain yn nodi, yn achos plant a phobl ifanc yr oedd eisoes yn gwybod amdanynt, bod bwrdd iechyd yn debygol o allu **cydymffurfio o fewn y chwe wythnos ond, yn achos eraill, bod hynny'n debygol o gymryd mwy o amser** (er bod targed o 14 wythnos rhwng atgyfeiriad a thriniaeth yn y GIG). Mae tystiolaeth ysgrifenedig Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd yn ymhelaethu ar eu sylwadau bod nifer o resymau pam na fydd cyrff iechyd yn gallu cydymffurfio â'r amserlen 6 wythnos o bosibl.			
		Ymateb y Pwyllgor (Amserlen ar gyfer darparu gwybodaeth a chymorth) Mae'r Pwyllgor yn croesawu bod y Cod yn gosod amserlen o ran pryd y mae'n rhaid i gyrff (fel byrddau iechyd) gydymffurfio â chais gan ALl am wybodaeth neu gymorth arall. Fodd bynnag, fel gydag ymateb y Pwyllgor i amserlenni yn adran 8, mae'r Pwyllgor yn pryderu, os nad yw'r amserlenni'n realistig ac yn gyflawnadwy, er enghraifft lle nad oes gan y GIG unrhyw wybodaeth neu lle nad yw wedi ymwneud â dysgwr yn barod, y gallai hyn arwain at ddefnyddio'r eithriadau'n. Felly, byddai'r Pwyllgor yn croesawu rhesymeg y Llywodraeth dros bennu'r amserlenni, a sicrwydd y gellir eu cyflawni a bod hyn yn cael ei gynnwys yn y Cod fel canllaw.			
10C) Dyletswydd Adran 20 (ddim yn uniongyrchol gysylltiedig ag ymgymeriad LlC ond mae wedi'i		Nid yw'r mater hwn yn ymwneud ag ymgymeriad penodol gan Lywodraeth Cymru yn ystod taith y Bil drwy'r Cynulliad, er iddo godi yn ystod y maes trafod hwn. O dan adran 20 o'r Ddeddf, mae dyletswydd ar gyrff y GIG i ystyried a oes unrhyw 'driniaeth berthnasol neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd' o ran ymdrin ag ADY y dysgwr. Os felly, rhaid iddynt sicrhau'r driniaeth honno neu'r gwasanaeth hwnnw ar gyfer y dysgwr. **Crynodeb o dystiolaeth rhanddeiliaid** Trafododd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd amryw eiriadau a ddefnyddir gan y Cod drafft wrth ddehongli'r ymadrodd 'unrhyw driniaeth berthnasol neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd'. Soniodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd am y cyfeiriadau yn y Cod drafft (paragraffau 1.66 a 15.24) at rywbeth 'y			

gynnwys yma fel mater sy'n berthnasol i'r maes trafod hwn)		byddent yn ei chyflwyno'n arferol' fel rhan o'r GIG yn ogystal â'r cyfeiriad at 'argymhellion ar ymyriadau effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ' ym mharagraff 15.46. Dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd ei bod yn well ganddynt y dehongliadau hyn o'r modd y byddai cyrff iechyd yn asesu pa ddarpariaeth y dylid ei gwneud fel un sy'n 'debygol o fod o fudd' sef y **term a ddefnyddir yn y Ddeddf**. Heb yr amod hwn, meddent hwy, byddai **'yn debygol o fod o fudd'** yn enfawr ac yn gallu cynnwys pethau na fyddent yn cael, na allent gael ac na ddylent gael eu darparu gan y GIG". (Ymdrinnir â hyn gan ran arall y diffiniad yn adran 20 o'r Ddeddf – 'triniaeth berthnasol neu wasanaeth perthnasol'. Mae'r Cod drafft (paragraff 15.25) yn nodi bod hyn yn golygu rhywbeth "y byddai corff GIG yn ei ddarparu'n arferol fel rhan o wasanaeth iechyd cynhwysfawr Cymru".) Mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd yn nodi yn eu sylwadau ysgrifenedig bod **egwyddorion gofal iechyd darbodus** yn ei gwneud yn ofynnol i weithwyr iechyd proffesiynol seilio'u penderfyniadau ar **'angen clinigol'** nid ar 'fudd tebygol'. Mae 'angen clinigol' yn taro cydbwysedd rhwng canlyniadau o ran newid cadarnhaol i glaf ar y naill law gyda goblygiadau o ran adnoddau a chostau ar y llaw arall. Ni all y Cod newid geiriad adran 20 y Ddeddf, er y gall roi arweiniad ar sut y caiff ei ddehongli. Byddai'n well gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd ddehongliad sy'n ymwneud ag angen clinigol a byddai hefyd yn croesawu defnyddio'r term 'seiliedig ar dystiolaeth'. Trafodwyd hyn gyda'r Gweinidog ar y pryd yn ystod Cyfnod 1 a ddywedodd nad oedd angen defnyddio'r term angen clinigol yn y Bil gan fod hyn eisoes yn rhan annatod o brosesau penderfynu'r GIG. Roedd safbwynt SNAP yn wahanol i un Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd, a hwythau'n ddadlau y dylai'r Cod drafft ganolbwyntio ar anghenion unigol y dysgwr yn hytrach na dim ond yr hyn a ddarperir fel arfer: *"When we're talking about low-instance but high-impact things where we don't normally provide a service within this authority or this health board, it could be that that's provided elsewhere. So, I think you can't just have 'normally provide', because there are always exceptions. Children are always individuals with individual needs, and education law looks at the child as an individual in context and says, actually, that 'normally provided'—people can provide beyond that. It's not good enough that it's 'normally provided' or 'it's our policy'; they need to be looking at that individual child and providing exceptions. "* Tynnodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd sylw at bwysigrwydd gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a fyddai'n rhoi cyfrif am natur unigol achosion: *"You can read about something that's been amazing for one person in one case, and is that something that's the duty to be provided by the NHS? That's the question, isn't it? So, then it would be what's normally provided, and obviously*

		we're trying to ensure that everything that we provide is evidence-based, which fits in with the intended outcomes, because what we want to say is: there's an evidence base that says that the outcome that we want to achieve is going to be achieved by this intervention."				
		Ymateb y Pwyllgor (Dyletswydd Adran 20) Nid oedd y mater hwn yn ymwneud ag ymgymeriad penodol gan Lywodraeth Cymru yn ystod taith y Bil drwy'r Cynulliad, ond mynegwyd pryderon yn ystod ystyriaethau'r gweithgor a oedd yn ymwneud ag Adran 20 y Ddeddf, lle mae dyletswydd ar gyrff y GIG i ystyried a oes triniaeth berthnasol neu wasanaeth perthnasol sy'n 'debygol o fod o fudd' o ran mynd i'r afael ag ADY y dysgwr. Os felly, rhaid iddynt sicrhau'r driniaeth honno neu'r gwasanaeth hwnnw ar gyfer y dysgwr. Amlygir y pryderon penodol yn yr adran ar farn rhanddeiliaid uchod. Wrth ystyried hyn, mae'r Pwyllgor yn fodlon bod y Cod yn rhoi digon o fanylion o ran sut y caiff y geiriad 'triniaeth berthnasol neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o fod o fudd' ei ddehongli a'i gymhwyso. Fodd bynnag, rydym yn tynnu sylw Llywodraeth Cymru at y pryderon a godwyd fel y gallant fod yn rhan o'i hystyriaeth i'r Cod drafft.				
Maes trafod 11: Darpariaeth Gymraeg						
11A) Yr unfed nod ar ddeg: Gwasanaethau dwyieithog		Bod y ddeddfwriaeth yn mabwysiadu darparu gwasanaethau ADY dwyieithog fel unfed nod craidd ar ddeg, yn ychwanegol at y deg nod craidd a nodir ym Memorandwm Esboniadol y Bil fel y'i cyflwynwyd.	Derbyniodd LlC Arg. 36, Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.		Mae Memorandwm Esboniadol y Ddeddf fel y'i pasiwyd yn cynnwys 'System ddwyieithog' fel unfed nod ar ddeg ar gyfer y ddeddfwriaeth a'r system ADY newydd (para 3.17). Mae'r Cod yn mabwysiadu'r canlynol fel un o'i egwyddorion: "System ddwyieithog lle cymerir pob cam rhesymol i gyflwyno DDdY drwy'r Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd angen cymorth drwy'r Gymraeg, gan ganiatáu ar gyfer cynyddu DDdY drwy'r Gymraeg dros amser." **Nid oes pennod wedi'i neilltuo** o fewn y Cod i egluro sut y dylid darparu gwasanaethau ADY cyfrwng Cymraeg.	Paragraff 3.17, Memorandwm Esboniadol Paragraff 2.2, Cod Drafft

					Ymddengys fod y dull yn ymwneud â cheisio integreiddio canllawiau yn hyn o beth i'r priod benodau.	

Crynodeb o farn rhanddeiliaid

Ni oedd **Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg** yn gallu bod yn bresennol yng nghyfarfod y Gweithgor ar 13 Chwefror 2019. Fodd bynnag, maent **cyflwyno sylwadau ysgrifenedig** am dri o'r materion yn y maes trafod hwn.

Mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn tynnu sylw at baragraffau 2.24, 2.25 a 2.26 sy'n nodi'r gofynion o ran y Gymraeg ac yn ymhelaethu ar yr egwyddor a nodir ym mharagraff 2.2.

Mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn credu y gellid gwella sawl agwedd ar y Cod drafft ond nid ydynt yn rhoi barn gadarn ai mewn pennod a neilltuwyd i'r pwrpas o fewn y Cod fyddai'r ffordd orau o wneud hyn. Fodd bynnag, maent yn dweud y gallai canllawiau arfer da, a gynhyrchwyd yn 2007 ac a gymeradwywyd gan Goleg Brenhinol y Therapyddion Iaith, i therapyddion iaith a lleferydd wrth weithio gyda chleientiaid sy'n dymuno defnyddio ieithoedd lleiafrifol, oleuo gwelliannau o'r fath yn y Cod. Cadarnhaodd Coleg y Therapyddion Iaith a Lleferydd yn ddiweddarach ei fod wrthi ar hyn o bryd yn ceisio diwygio'r ddogfen hon a datblygu fersiwn a fydd ar gael yn benodol ar gyfer y cyd-destun dwyieithog yng Nghymru.

Soniodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd am bwysigrwydd cynnal asesiadau yn iaith gyntaf y plentyn neu'r person ifanc:

"Absolutely, and the assessments can be a problem, but we book interpreters from a speech and language therapy perspective, and have those in on the assessments. It's a challenge, there's no doubt about it, but yes, absolutely."

Cadarnhaodd y Coleg Brenhinol yn ddiweddarach y byddai'n ceisio darparu asesiadau gan therapyddion Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc Cymraeg. Cyfieithydd ar y pryd ar gyfer asesiadau yn Gymraeg fyddai'r dewis olaf un.

Awgrymodd Swyddfa'r Comisiynydd Plant y gellid defnyddio cyfieithwyr ar y pryd tra bod y gweithlu'n cael ei ddatblygu os yw capasiti yn broblem. Ar y pwynt penodol hwn, dywedodd Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg (mewn sylwadau ysgrifenedig pellach) y dylid ei gwneud yn glir nad defnyddio cyfieithwyr ar y pryd yw'r opsiwn a ffefrir – h.y. mai'r nod y dylid anelu ato yw bod â staff sydd â gallu digonol yn y Gymraeg fel nad oes angen dibynnu ar gyfieithwyr ar y pryd. Roeddent yn cydnabod, yn absenoldeb staff â sgiliau Cymraeg, y gallai hyn fod yn angenrheidiol – ond ei fod yn ymyriad sylweddol ac y dylid ei osgoi os yw'n bosibl.

		Ymateb y Pwyllgor (Unfed nod ar ddeg: Gwasanaethau dwyieithog) Mae'r Pwyllgor yn croesawu bod y Cod wedi mabwysiadu fel un o'i egwyddorion, "System ddwyieithog lle cymerir pob cam rhesymol i gyflwyno DDdY drwy'r Gymraeg i blant a phobl ifanc sydd angen cymorth drwy'r Gymraeg, gan ganiatáu ar gyfer cynyddu DDdY drwy'r Gymraeg dros amser." Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cytuno â barn a fynegwyd y dylai'r Cod fod yn gliriach o ran darpariaeth Gymraeg, ac yn credu y dylai gynnwys pennod benodol sy'n cynnwys, mewn un man, y canllawiau ar ddarparu'r system ADY trwy gyfrwng y Gymraeg. Fel yr awgrymwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg, mae'r Pwyllgor hefyd yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio canllawiau Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith 2007 ar ieithyddoedd leiafrifol (a'r fersiwn ddiwygiedig sy'n cael ei datblygu pan fydd ar gael) i weld sut y gallant helpu i wella agweddau perthnasol ar y Cod drafft. Mae'r Pwyllgor yn cytuno ag awgrym y Comisiynydd Plant y dylai'r Cod gyfeirio at y defnydd o gyfieithwyr ar y pryd i hwyluso cyfarfodydd wyneb yn wyneb rhwng darparwyr a chyrff perthnasol a dysgwyr a'u teuluoedd yn eu hiaith gyntaf. Rydym hefyd yn cytuno â Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ac, os caiff cyfeiriad o'r fath ei gynnwys, dylai'r Cod nodi'n glir nad defnyddio cyfieithwyr ar y pryd yw'r opsiwn a ffefrir – ac mai'r opsiwn a ffefrir yw bod â staff sydd â gallu digonol yn y Gymraeg fel nad oes angen dibynnu ar gyfieithwyr ar y pryd. Er i hyn gael ei godi gyda'r Pwyllgor yng nghyd-destun penderfyniadau ynghylch darpariaeth ddysgu ychwanegol, gallai hyn fod yn berthnasol yn fwy cyffredinol i bob agwedd ar y broses ADY (gweler hefyd bwyntiau trafod 11B, 11C ac 11D).				
11B) Penderfyniadau dros DDdY yn Gymraeg		Bod y Cod yn darparu arweiniad pellach ynghylch y camau rhesymol y mae'n rhaid i gyrff llywodraethu, ALlau a byrddau iechyd eu cymryd i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg gan roi sylw i ddymuniadau'r dysgwr.	Wrth wrthod Arg. 33, Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, a oedd yn galw am welliannu i'r Bil i roi rhagdybiaeth ynglŷn â darparu gwasanaethau yn Gymraeg lle gofynnir am hyn.		Mae'r Cod yn nodi, yng nghyd-destun diffinio cynnwys gorfodol mewn CDU: "Mae'n ddyletswydd ar y corff sy'n llunio, cynnal neu ailystyried CDU i ystyried a ddylid cyflwyno DDdY yn Gymraeg ac, os yw'n penderfynu y dylid gwneud hynny, rhaid nodi hyn yn y CDU. Wedyn, mae'n ddyletswydd ar y corff sy'n cynnal y CDU i gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y DDdY yn cael ei chyflwyno yn Gymraeg." Yn ei arweiniad ar ddyletswyddau ar gyrff iechyd, mae'r Cod yn nodi:	Paragraff 13.40

					Os bydd y corff GIG yn nodi triniaeth neu wasanaeth o'r fath, rhaid iddo: ▪ penderfynu a ddylid darparu'r driniaeth neu'r gwasanaeth i'r plentyn neu'r person ifanc drwy'r Gymraeg ▪ cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y driniaeth neu'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu drwy'r Gymraeg, os yw'n penderfynu y dylid darparu'r driniaeth neu'r gwasanaeth i'r plentyn neu'r person ifanc drwy'r Gymraeg.	Paragraff 15.28
		Crynodeb o farn Comisiynydd y Gymraeg Mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn amlygu bod ADY yn "faes lle mae gwneud darpariaeth yn unol ag anghenion iaith unigolion yn gwbl hanfodol i ansawdd ac effeithiolrwydd y ddarpariaeth ei hun". Mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn cyfeirio at y paragraff ym mhob un o'r penodau ynglŷn â dyletswyddau ar awdurdodau lleol (paragraffau 8.22 ac 8.33), ysgolion (paragraffau 9.21 a 9.36) a SABau (paragraffau 10.20 a 10.34). Mae'r dyletswyddau, sydd wedi'u seilio ar y Ddeddf, yn nodi bod rhaid i gyrff perthnasol ystyried a ddylid rhoi darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg; os byddant yn penderfynu y dylid, rhaid iddynt nodi hynny yn y CDU; a rhaid iddynt gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol yn cael ei rhoi yn Gymraeg. Mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn codi **tri mater** yn y cyd-destun hwn: 1) Mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn credu y dylai'r Cod ddarparu eglurhad pellach ynghylch **pwy sy'n gwneud y penderfyniad** a ddylid rhoi darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg ac **ar ba wybodaeth y maent yn seilio'r penderfyniad hwnnw**. Meddai Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg: *"Nid yw'r Ddeddf na'r Cod yn cynnig cyfarwyddyd i gyrff perthnasol ynghylch sut i benderfynu ar iaith y ddarpariaeth ac nid oes cyngor ar yr hyn y dylid ei ystyried wrth wneud penderfyniad o'r fath. Wrth ffurfio barn o'r fath, mae'n bosibl y dylai ffactorau fel yr iaith a siaredir gartref, cyfrwng addysg neu ofal plant, ac, yn achos plant ifanc iawn, y cyfrwng addysg y mae'r rhieni wedi'i ddewis ar gyfer y plentyn, gael eu hystyried. "*				

		2) Mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn ailddatgan eu safbwynt y dylai'r Ddeddf fod wedi datgan lle penderfynir y dylid rhoi darpariaeth ddysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg, y dylai fod dyletswydd lwyr ar ddarparwyr i sicrhau hyn yn hytrach na "dyletswydd amodol", fel y mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn disgrifio'r prawf 'pob cam rhesymol'. Maent yn galw am **fwy o arweiniad yn y Cod ynghylch beth yw 'camau rhesymol'**, ac yn cyfeirio at ymgymeriadau gan y Gweinidog ar y pryd wrth wrthod argymhellion a gwelliannau perthnasol. Yng ngeiriau Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg: *"Y broblem gyda'r ddyletswydd amodol hon yw bod rhwydd hynt i'r cyrff perthnasol ddehongli beth yw 'camau rhesymol' a'i bod felly'n bosibl y byddai rhai yn dehongli 'rhesymoldeb' yn nhermau eu gallu presennol i ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg. Nid ydym ni o'r farn ei bod yn dderbyniol bod y cyrff hynny sydd dan rwymedigaeth statudol i 'gymryd pob cam rhesymol' yn gyfrifol eu hunain am benderfynu a ydynt wedi cydymffurfio â'r ddyletswydd hon ai peidio. "* Er bod Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn derbyn y gallai rhoi darpariaeth ddysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg fod yn anodd mewn rhai rhannau o Gymru, credant mai gosod disgwyliadau uchel trwy ddeddfwriaeth yw'r hyn sy'n sbarduno newid. Trafodwyd mater sut i 'ddiogelu'r Ddeddf at y dyfodol' a chodi'r gofynion ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unol â datblygu gallu'r gweithlu yn ystod dadl ar welliannau yn ystod taith y Bil drwy'r Cynulliad. Y sefyllfa ar y pryd oedd gwelliant gan Lywodraeth Cymru i'r Bil fel bod adran 89 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru drefnu adolygiad o ddigonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol cyfrwng Cymraeg, gan gyhoeddi adroddiadau ar ganlyniadau'r adolygiadau hyn bob pum mlynedd. Mae'r Cod drafft (paragraff 5.6) yn dynodi y bydd adran 63 o'r Ddeddf, sy'n rhoi gorfodaeth ar awdurdodau lleol i ystyried digonolrwydd DDdY cyfrwng Cymraeg a chapasiti'r gweithlu fel rhan o'u dyletswydd i adolygu darpariaeth ddysgu ychwanegol, yn galluogi Gweinidogion Cymru i fonitro'r cymal 'pob cam rhesymol'. Mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn cydnabod bod y Ddeddf "yn anelu at osod disgwyliadau uchel… ond nid i'r graddau bod hynny'n afrealistig". Eu dealltwriaeth hwy yw mai'r **bwriad hirdymor yw cael gwared ar yr esgus 'pob cam rhesymol' a symud tuag at system ADY gwbl ddwyieithog**. Fodd bynnag, mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn dymuno gweld "canllawiau clir yn y Cod ynghylch ystyr 'pob cam rhesymol'" ar gyfer y cyfnod hyd nes y caiff y nod hirdymor hwnnw ei wireddu. 3) Mae adran 70(2) a pharagraff 26.5 o'r Cod drafft yn rhestru'r materion y gellir apelio yn eu herbyn wrth Dribiwnlys Addysg Cymru. Rhestrir pa un a yw CDU yn nodi y dylid rhoi darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg ai peidio, er **nad yw methu â chymryd pob cam rhesymol lle nodir hyn yn y CDU wedi'i restru fel mater y gellir apelio yn ei gylch**. Yng ngeiriau Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg: *"Nid yw'r Cod na'r Ddeddf yn nodi proses glir a hygyrch ar gyfer gwneud cyrff perthnasol yn atebol am beidio â chydymffurfio â'u dyletswydd. Nid yw'n glir pa lwybrau sy'n agored i unigolion os ydynt yn teimlo nad yw'r corff perthnasol*

		wedi cymryd camau rhesymol i roi darpariaeth ddysgu ychwanegol trwy gyfrwng y Gymraeg. Yn niffyg proses glir a hygyrch, bydd darparwyr yn llai tebygol o gydymffurfio â'r ddyletswydd i gymryd pob cam rhesymol yn y lle cyntaf. " Gan nad yw'n ymddangos yn bosibl dan y Ddeddf bod apêl yn cael ei chyflwyno i'r Tribiwnlys yn erbyn methiant corff perthnasol i gymryd camau rhesymol, mae Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn galw am ddatgan yn benodol yn y Cod drafft y gellir defnyddio dulliau amgen o ddatrys anghytundebau, gan gynnwys cyfleu cwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, cyfleu cwynion i Weinidogion Cymru, neu adolygiad barnwrol, i herio darparwyr wrth ystyried a ydynt wedi cymryd pob cam rhesymol i roi darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg. **Crynodeb o farn rhanddeiliaid eraill** Galwodd NDCS am roi mwy o bwyslais ar ddewis teuluol, tra bo SNAP wedi adleisio galwad Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg am fwy o arweiniad ar yr hyn sy'n gyfystyr â chamau rhesymol: *"I think they could put some **examples of what 'reasonable' might mean**. For example, these cases often come to us, and [say] 'My child doesn't speak English. Why would they have an assessment, already by a stranger, to put them at unease?' When we go back to that local authority, I would expect them to go to their neighbouring authorities if they don't have the provision for that assessment there. I would think it perfectly reasonable for them to purchase that from their neighbouring authority or from within their consortia or, in extremis, from elsewhere. I think that could be put in there as an example of what 'reasonable' would mean. Because 'reasonable' could mean, 'Well we've tried, we've looked, we've asked, but there's no availability. We've made our best efforts, but — "* Awgrymodd CLlLC **gall y costau fod â dylanwad** ar yr hyn a ystyrir yn 'gamau rhesymol': *"you can't magic Welsh-speaking provision out of nowhere. … you would expect authorities to attempt to get, buy in provision, borrow provision or whatever, but again there's potentially a funding element to that as well. Everybody wants the families and children to be able to choose the language—quite right. However, I'm just saying, in practice, there may be, for some while at least, an issue about the availability of that provision."* Amlygodd Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg hefyd **oblygiadau o ran adnoddau a chapasiti**, gan gyfeirio at yr ymdrechion sy'n cael eu gwneud i gynyddu nifer y seicolegwyr addysg sy'n siarad Cymraeg.
		Ymateb y Pwyllgor (Penderfyniadau dros DDdY yn Gymraeg) Yn ystod y broses o graffu ar y Bil ADY, rhoddodd y Gweinidog yr ymrwymiad y byddai'r Cod yn darparu arweiniad pellach ynghylch pa gamau rhesymol y mae'n rhaid i gyrff llywodraethu, ALlau a byrddau iechyd eu cymryd i ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg gan roi sylw i ddymuniadau'r dysgwr. Er bod rhywfaint o fanylion wedi'u rhoi yn y Cod, mae'r

		Pwyllgor yn cytuno â nifer o'r pryderon a godwyd mewn perthynas â'r manylion yn y Cod. Mae manylion y pryderon penodol a godwyd wedi'u cynnwys yn yr adran Barn Rhanddeiliaid uchod. Cred y Pwyllgor y dylai'r Cod roi mwy o arweiniad ynghylch y rhesymau y dylai darparwyr eu defnyddio'n sail i benderfynu a ddylid rhoi darpariaeth yn Gymraeg ai peidio, ac ar ba lefel (o ran lefel swydd neu arbenigedd) y gwneir penderfyniadau o'r fath o fewn sefydliadau. Credwn hefyd y dylai'r Cod roi mwy o arweiniad ar yr hyn a olygir wrth y term 'pob cam rhesymol', y mae'n rhaid i ddarparwyr eu cymryd wrth sicrhau bod darpariaeth yn cael ei rhoi yn Gymraeg, unwaith y mae hyn wedi'i nodi yn y CDU. Yn gysylltiedig â hyn, ond nid yn y Cod ei hun o reidrwydd, dylai Llywodraeth Cymru egluro ai datblygu capasiti'r gweithlu i'r graddau y gellir dileu'r esgus 'pob cam rhesymol' yw ei nod hirdymor. Mae'r Pwyllgor hefyd o'r farn y dylid archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio cyfieithwyr ar y pryd wrth ddarparu gwasanaethau eirioli. Cyfeirier at yr argymhelliad llawn ynglŷn â'r mater hwn ym mhwynt trafod 11A. Mae'r Pwyllgor yn pryderu, er y gall dysgwyr a'u teuluoedd apelio wrth y Tribiwnlys os nad yw eu CDU yn nodi y dylai darpariaeth ddysgu ychwanegol fod trwy gyfrwng y Gymraeg, lle mae'r CDU yn datgan y dylai darpariaeth ddysgu ychwanegol fod yn Gymraeg nid yw'r cwestiwn a yw corff perthnasol wedi cymryd pob cam rhesymol i sicrhau'r DDdY honno yn fater y gellir apelio wrth y Tribiwnlys yn ei gylch. Ymddengys fod hyn yn anghysondeb neu'n fan gwan yn y Ddeddf. Credwn felly y dylai'r Cod egluro pa opsiynau sydd ar gael i ddysgwyr/teuluoedd sy'n dymuno herio'r hyn y maent hwy'n ei ystyried yn fethiant i gymryd pob cam rhesymol yn hyn o beth.				
11C) **Gwasanaethau eirioli yn Gymraeg**		Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, Kirsty Williams, y bydd y Cod yn rhoi arweiniad ar gyfrifoldebau awdurdodau lleol i sicrhau bod gwasanaethau eirioli ar gael yn Gymraeg os gofynnir amdanynt.	Wrth wrthod gwelliant 66 yng Nghyfnod 3 a fyddai wedi golygu y dylid darparu unrhyw wasanaethau eirioli yn Gymraeg 'fel arfer' os gofynnir amdanynt.		**Nid yw hyn wedi'i gynnwys** ym mhennod 25, sef y bennod sy'n ymdrin â gwasanaethau eirioli annibynnol. Nid yw i'w weld fel pe bai'n cael sylw yn unrhyw le arall yn y Cod ychwaith.	

		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Dywed Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg eu bod wedi codi pryderon yn gyson yn ystod taith y Bil drwy'r Cynulliad ynghylch hawl unigolion i gael gwasanaethau eirioli yn Gymraeg. Maent hwy'n cyfeirio at wrthod gwelliannau gan Lywodraeth Cymru a sicrwydd y byddai hyn yn cael ei gynnwys yn y Cod. Er gwaethaf hyn, maent yn dweud nad oes canllawiau o'r fath ym mhennod 25 o'r Cod drafft. Dywed Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg fod y **Llywodraeth Cymru yn credu bod Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015** yn gosod rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau eirioli trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae **Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg yn anghytuno** â dehongliad Llywodraeth Cymru oherwydd, er ei bod yn bosibl y gallai trefniadau a chyfarfodydd cychwynnol fod yn ddarostyngedig i'r safonau, ni fyddai'r gwasanaeth eirioli ei hun yn dod o dan y diffiniad yn y ddeddfwriaeth.
		Ymateb y Pwyllgor (Gwasanaethau eirioli yn Gymraeg) Yn ystod y broses o graffu ar y Bil, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r Cod yn rhoi arweiniad ar gyfrifoldebau awdurdodau lleol i sicrhau bod gwasanaethau eirioli ar gael yn Gymraeg os gofynnir amdanynt. Felly mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw'n ymddangos bod hyn wedi'i gynnwys yn y Cod. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r pryderon gan Gomisiynydd y Gymraeg, ac yn cytuno nad yw'n glir a yw Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 yn gosod rhwymedigaeth ar awdurdodau lleol i ddarparu gwasanaethau eirioli trwy gyfrwng y Gymraeg. Credwn felly y dylai'r Cod gynnwys canllawiau penodol y dylai gwasanaethau eirioli annibynnol fod ar gael yn Gymraeg, yn unol â'r ymrwymiad a wnaed. Dylai Llywodraeth Cymru egluro a yw hyn yn dod o dan Safonau'r Gymraeg a chynnwys unrhyw gyfeiriadau priodol at y rhain yn y Cod. Mae'r Pwyllgor hefyd o'r farn y dylid archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio cyfieithwyr ar y pryd wrth ddarparu gwasanaethau eirioli. Cyfeirier at yr argymhelliad llawn ynglŷn â'r mater hwn ym mhwynt trafod 11A.
11D) Cyfrwng iaith asesu ar gyfer ADY (ddim yn uniongyrchol		Fe wnaeth Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg godi'r mater hwn yn ei sylwadau ysgrifenedig, er nad oedd yn destun ymgymeriad gan Lywodraeth Cymru yn ystod taith y Bil drwy'r Cynulliad. Mae paragraff 7.37 o'r Cod drafft yn rhestru enghreifftiau o ffynonellau tystiolaeth y gellid eu defnyddio i fesur cynnydd dysgwr ac i oleuo penderfyniad a oes gan ddysgwr ADY. Mae 'adnoddau a fframweithiau sgrinio neu asesu safonedig' yn un o'r enghreifftiau a roddir.

gysylltiedig ag ymgymeriad LlC ond mae wedi'i gynnwys yma fel mater sy'n berthnasol i'r maes trafod hwn)		**Crynodeb o dystiolaeth rhanddeiliaid** Dywed Swyddfa Comisiynydd Iaith Cymru fod ei hymchwil fewnol a'r cwynion y mae wedi'u cael yn awgrymu bod llawer o'r **asesiadau safonedig** a ddefnyddir i ganfod a oes gan ddysgwr ADY **ddim ar gael yn Gymraeg bob amser**: *"Er bod rhai awdurdodau lleol wedi cyfieithu'r asesiadau eu hunain, ni chawsant eu dilysu o reidrwydd, sy'n codi cwestiynau sylweddol ynghylch dibynadwyedd a dilysrwydd yr asesiadau hynny. Nid oedd llawer o asesiadau ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg o gwbl, sy'n golygu bod rhai awdurdodau lleol yn dibynnu'n llwyr ar asesiadau arsylwadol. Mae problemau hefyd o ran sicrhau bod digon o staff yn gallu cynnal asesiadau trwy gyfrwng y Gymraeg. Felly ymddengys fod capasiti cyfyngedig yn bodoli o ran asesu ADY trwy gyfrwng y Gymraeg ledled Cymru. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid asesu rhai siaradwyr Cymraeg ifainc yn Saesneg, sy'n peri risg sylweddol i ddilysrwydd a chanlyniad yr asesiadau hynny. "* Cred Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg y dylai'r Cod ddarparu cyfarwyddyd pellach a rhannu enghreifftiau o arfer da.			
		Ymateb y Pwyllgor (Cyfrwng iaith asesu ar gyfer ADY) Er nad oedd hyn yn destun ymgymeriad gan Lywodraeth Cymru yn ystod taith y Bil drwy'r Cynulliad, codwyd pryderon fel rhan o ystyriaeth y gweithgor i'r Cod mewn perthynas ag asesu ADY trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys yr awgrym o ymchwil a gynhaliwyd gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg nad yw llawer o'r asesiadau safonedig a ddefnyddir i ganfod a oes gan ddysgwr ADY ar gael yn Gymraeg bob amser. Mae'r Pwyllgor yn pryderu am hyn ac yn galw am fynd i'r afael â'r mater hwn yn y Cod trwy sicrhau bod asesiadau'n cael eu cynnal yn Gymraeg lle mai dyma iaith gyntaf y dysgwr a bod unrhyw ddeunyddiau safonedig a ddefnyddir wedi'u hysgrifennu yn Gymraeg. Fel lleiafswm, dylai'r Cod amodi bod y prawf 'pob cam rhesymol' yn berthnasol i asesu yn ogystal â darpariaeth. Mae'r Pwyllgor hefyd o'r farn y dylid archwilio'r posibilrwydd o ddefnyddio cyfieithwyr ar y pryd wrth gynnal asesiadau ar gyfer ADY. Cyfeirier at yr argymhelliad llawn ar y mater hwn ym mhwynt trafod 11A.			
Maes trafod 12: Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) mewn ieithoedd eraill						
12A) DDdY mewn ieithoedd eraill		Bod y Cod yn ystyried pa ganllawiau y gellir eu darparu ar DDdY mewn ieithoedd eraill, er enghraifft Iaith Arwyddion Prydain.	Wrth wrthod Arg. 35, Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac		Mae'r Cod yn dweud y dylai CDU nodi'r iaith ar gyfer cyfathrebu gyda'r dysgwr ac y gallai hyn gynnwys Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ac y dylid ystyried yr angen am ddehonglwr.	Paragraff 13.15

			Addysg, dywedodd y Gweinidog, Alun Davies, yn hytrach na gwneud gwelliant i'r Bil, y gellid ymdrin â hyn yn fwy priodol yn y Cod ac y byddai'n ystyried pa ganllawiau y gellid eu rhoi ar hyn.		Ymddengys fod hyn yn ymwneud ag iaith cyfathrebu yn hytrach nag iaith y ddarpariaeth ei hun. **Ni chanfuwyd unrhyw gyfeiriadau pellach.**	
		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Nid yw NDCS yn credu bod y Cod drafft yn gwneud yr hyn yr ymrwymodd Llywodraeth Cymru i'w wneud: *"I'm **not sure that that paragraph actually addresses the point that was raised**, which is for the code to consider what guidance can be provided on ALP in other languages. So, that section relates purely to just recording what the communication need of the child is. It doesn't relate to providing ALP in other languages."* Hoffai NDCS i'r adran hon o'r Cod hefyd fynd i'r afael ag **anghenion cyfathrebu teuluoedd yn ogystal â'r dysgwr** ei hun o ran y ffordd y mae darparwyr a chyrff perthnasol yn cyfathrebu am faterion ADY. Fel y pwysleisiodd NDCS, mae'n bwysig bod rhieni ac aelodau perthnasol eraill o'r teulu yn rhan o'r broses a bod eu hanghenion cyfathrebu yn cael eu diwallu. Ychwanegodd Swyddfa'r Comisiynydd Plant fod yna fwlch drwy'r Cod drafft o ran cynorthwyo teuluoedd i ddatblygu eu sgiliau Iaith Arwyddion Prydain ar y cyd â'u plant.				
		Ymateb y Pwyllgor (Darpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY) mewn ieithoedd eraill) Yn ystod y broses o graffu ar y Bil, dywedodd y Gweinidog y byddai'n briodol i'r Cod ystyried pa ganllawiau y gellid eu darparu ar ddarpariaeth ddysgu ychwanegol mewn ieithoedd eraill, er enghraifft Iaith Arwyddion Prydain. Mae Paragraff 13.15 o'r Cod yn dweud y dylai CDU nodi'r iaith ar gyfer cyfathrebu gyda'r dysgwr, y gallai hyn gynnwys Iaith Arwyddion Prydain (BSL) ac y dylid ystyried yr angen am ddehonglwr. Ond ymddengys fod hyn yn ymwneud ag iaith cyfathrebu yn hytrach nag iaith y ddarpariaeth ei hun.				

		Mae'r Pwyllgor yn siomedig nad yw'r Cod yn mynd yn ddigon pell ar y mater hwn, ac mae'n credu y dylai'r Cod fynd i'r afael â'r pwynt a drafodwyd yn ystod taith y Bil drwy'r Cynulliad, a oedd yn ymwneud â rhoi'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol ei hun mewn ieithoedd eraill, yn benodol Iaith Arwyddion Prydain, yn ogystal ag iaith cyfathrebu â'r dysgwr. Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu y dylai'r adran berthnasol o'r Cod drafft gynnwys teuluoedd/rhieni, yn ogystal â'r plentyn ei hun, wrth ystyried a oes angen dehonglydd neu fathau eraill o gyfathrebu i gefnogi eu cyfranogiad yn y broses ADY.				
Maes trafod 13: Plant sy'n Derbyn Gofal dros 16 oed						
13A) Plant sy'n Derbyn Gofal dros 16 oed		Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, Kirsty Williams, "Bydd modd cynnwys canllawiau clir yn y Cod i gynorthwyo ymarferwyr gyda'r dyletswyddau a'r darpariaethau yn y Bil ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phobl ifanc i ymdrin â throsglwyddo o fod yn blentyn sy'n derbyn gofal i fod yn berson ifanc".	Wrth wrthsefyll gwelliant 10 yng Nghyfnod 3, a oedd yn ceisio ailddiffinio Plant sy'n Derbyn Gofal fel plant sydd dan 18 oed at ddibenion y Ddeddf, yn hytrach nag o dan oedran ysgol gorfodol. (Roedd gan y Comisiynydd Plant bryderon ynglŷn â hyn.)		Mae'r Cod yn cadarnhau diffiniad y Ddeddf o 'blentyn' fel unrhyw un nad yw dros oedran ysgol gorfodol a 'pherson ifanc' fel rhywun dros oedran ysgol gorfodol ond dan 25 oed. Mae'r Cod yn esbonio bod y diffiniad o blentyn sy'n derbyn gofal o dan y Ddeddf ADY yn fwy cul nag o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Pan fo plentyn sy'n derbyn gofal ac sydd â CDU yn dod yn berson ifanc (hynny yw, maent dros yr oedran ysgol gorfodol), rhaid i'r awdurdod lleol barhau i gynnal y CDU—nid oherwydd bod y plentyn yn derbyn gofal (adran 19) ond oherwydd ei fod yn berson ifanc ag ADY (adran 14).	Paragraff 1.17 Pargraffau 1.21 i 1.24 Paragraff 21.6
		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Meddai Swyddfa'r Comisiynydd Plant: *"Well, we were disappointed that that didn't come through in the Act, and we're aware that we can't change what's in the Act now. So, we're still really considering how we might be able to strengthen the whole provision for looked-after*				

		children aged 16 to 18, and it'll form quite a big part of our response. But we're ***still really considering that issue*** *at the moment."* Yn ddiweddarach, darparodd Swyddfa'r Comisiynydd Plant fanylion pellach a oedd yn nodi'r meysydd posibl y byddai eu hymateb i Lywodraeth Cymru yn eu cynnwys, a bod hyn yn debygol o gyfeirio at yr holl blant sy'n derbyn gofal yn hytrach na'r rhai dros 16 oed yn benodol. Ni wnaed unrhyw sylwadau gan randdeiliaid eraill.				
		Ymateb y Pwyllgor (Plant sy'n Derbyn Gofal dros 16 oed) Roedd y diffiniad o Blant sy'n Derbyn Gofal yn fater a ystyriwyd wrth graffu ar y Bil. Er bod y Pwyllgor yn nodi'r pryderon a godwyd gan Gomisiynydd Plant Cymru, rydym hefyd yn cydnabod bod y diffiniad wedi'i gynnwys yn y Ddeddf ac mae'r Cod yn adlewyrchu'r diffiniad hwn. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Comisiynydd Plant yn ystyried y mater hwn ymhellach ac y caiff ei gynnwys, ynghyd ag unrhyw bwyntiau eraill ynghylch plant sy'n derbyn gofal yn fwy cyffredinol, yn ei hymateb ffurfiol i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru. Mae'r Pwyllgor yn syml yn dymuno dwyn hyn i sylw Llywodraeth Cymru ar hyn o bryd.				
Maes trafod 14: Cyngor i bobl ifanc sy'n gwrthod cydsyniad						
14A) Cyngor i bobl ifanc sy'n gwrthod cydsyniad		Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, Kirsty Williams, y byddai'r Cod yn sicrhau, lle na roddodd person ifanc gydsyniad i gael DDdY, bod y person ifanc yn cael yr holl gyngor priodol.	Wrth wrthsefyll gwelliannau 6,7 ac 8 yng Nghyfnod 3, y dylid ychwanegu'r geiriau 'wedi cael gwybod am arwyddocâd a goblygiadau eu penderfyniad' at adrannau perthnasol y Ddeddf.		Mae'r Cod yn nodi bod y ddyletswydd yn adran 6 o'r Ddeddf i gynnig gwybodaeth a chyngor yn berthnasol at ddibenion galluogi pobl ifanc i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch caniatâd. "Dylid rhoi'r cymorth priodol i'r person ifanc, gan gynnwys gwybodaeth sy'n ei alluogi i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth sy'n esbonio ei hawliau, canlyniadau cael CDU neu beidio â chael CDU, a rhoi gwybod iddo y gall newid ei feddwl ar unrhyw adeg. "	Paragraff 3.18

					Dywed y cod hefyd: "Pan na fo'r person ifanc yn cydsynio i'r penderfyniad, mae'n rhaid cofnodi hyn. Dylai fod gan awdurdodau lleol weithdrefnau priodol i hwyluso hyn, a allai gynnwys y person ifanc yn llofnodi i gadarnhau ei fod yn gwrthod rhoi cydsyniad."	Paragraff 12.7
		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Teimlai rhanddeiliaid y gellid cryfhau'r agwedd hon ar y Cod. Dywedodd Swyddfa'r Comisiynydd Plant fod darparwyr a chyrff perthnasol **orfod bod yn fwy rhagweithiol o ran cynghori pobl ifanc**, yn hytrach na dibynnu ar newid eu meddwl ynglŷn â chydsyniad yn unig: *"At the moment, it says that young people should be made aware that they can change their minds, but is there maybe a bit more of a duty to revisit this and have a mechanism to enable young people to change their minds?".* Meddai SNAP: *"I know **parents**, Chair, are **very, very worried** about this element. These two paragraphs don't discuss anything about working with a family here about this decision. And we do know that a lot of young people 16 plus don't want to necessarily have the provision, have the support that they need, don't make informed decisions, and I just don't think that an FEI that is lacking in funds is going to necessarily go out of their way to ensure that there's a proper understanding with a young person about this consent issue. "* Arweiniodd y drafodaeth at fater **galluedd meddyliol** gyda NDCS yn gwneud y sylw: *"More is needed around capacity to consent because that's a huge area that hasn't really been touched upon appropriately."* Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg *"It's a very difficult issue, the one of capacity, especially when the young person's got additional learning needs, and how it's going to be defined. I can see that as being a real, real problem. "* Ychwanegodd SNAP:				

		"I do think they're very vague. I thinks it's 10 where they say that they can withhold consent, and it's repeated several times. But it's very vague; it's ***completely unrelated to the Mental Capacity Act*** *at all, and it's a very subjective decision based on the provider of the service supporting that child to come to that decision. "*				
		Ymateb y Pwyllgor (Cyngor i bobl ifanc sy'n gwrthod cydsyniad) Mae'r Pwyllgor yn falch bod y Cod yn cynnwys rhywfaint o wybodaeth / arweiniad, gan geisio sicrhau, lle nad yw person ifanc yn cydsynio i dderbyn darpariaeth ddysgu ychwanegol, bod y person ifanc yn derbyn yr holl gyngor priodol. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cytuno â rhanddeiliaid y gellid cryfhau'r agwedd hon ar y Cod. Yn benodol, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Cod ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr a chyrff perthnasol fod yn fwy rhagweithiol o ran sicrhau bod pobl ifanc yn meddu ar yr holl wybodaeth a chyngor perthnasol i ddeall goblygiadau gwrthod cydsyniad. Hefyd, dylai'r Cod sicrhau bod darparwyr a chyrff perthnasol yn sefydlu prosesau clir i bobl ifanc gael gafael ar wybodaeth a chyngor pellach os ydynt yn ystyried newid eu meddwl ar ôl gwrthod cydsyniad. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd ystyried sut y gall y Cod roi ystyriaeth ddigonol i faterion sy'n ymwneud â galluedd, gan roi ystyriaeth ddigonol i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005. Dylai'r Cod gyfeirio at Ddeddf 2005 lle y bo'n briodol.				
Maes trafod 15: CCUHP: Cydymffurfio gan gyrff llywodraethu						
15A) CCUHP: Cydymffurfio gan gyrff llywodraethu		Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet, Kirsty Williams, y bydd y Cod yn esbonio sut y bydd dyletswyddau i gydymffurfio â dyletswydd ar ALlau a chyrff iechyd i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rhaeadru i gyrff llywodraethu ysgolion a SAB.	Wrth wrthsefyll gwelliannau yng Nghyfnod 3 yn galw am ymestyn y ddyletswydd i roi sylw dyledus Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'i wneud yn berthnasol i gyrff llywodraethu.		Mae Pennod 4 yn ymdrin â dyletswyddau i roi sylw dyledus i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl. Mae paragraffau 4.16 a 4.17 yn rhoi arweiniad ar sut y dylai ALlau a bwrdd iechyd gyflawni'r dyletswyddau hyn yn ymarferol. Mae'n cynnwys: "camau i sicrhau bod arweinwyr a staff sy'n cyflwyno gwasanaethau sy'n ymwneud ag ADY yn ymwybodol o'r hawliau perthnasol o dan gonfensiynau plant a phobl ifanc, gan gynnwys y rheini	Pennod 4 Paragraff 4.17

					ag anableddau, er enghraifft drwy hyfforddiant staff;" **Ni chanfuwyd unrhyw fanylion pellach ar sut y bydd dyletswyddau'n rhaeadru i gyrff llywodraethu.**	
		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Dywedodd Plant yng Nghymru eu bod yn falch iawn bod y ddyletswydd ar awdurdodau lleol a chyrff iechyd i roi sylw dyledus i CCUHP wedi cael ei rhoi ar wyneb y Ddeddf. Fodd bynnag, fe wnaethant nodi **nad yw'r Cod drafft yn esbonio sut y bydd y dyletswyddau hyn yn rhaeadru** i gyrff llywodraethu ysgolion a sefydliadau addysg bellach, fel y dywedodd Llywodraeth Cymru y byddent yn ei wneud. Meddai Swyddfa'r Comisiynydd Plant: *"We would support that. And the chapter on the UNCRC duties relates to the strategic planning of additional learning of the ALP and then, it's not referenced, actually, in other key points, for example, around the decision around ALN. It's not referenced around that, it's not referenced in the preparation of the IDPs and it's not referenced in the duties to secure Welsh language and things. So, there are **many more ways that it could inform the code** as a whole."* Yn ddiweddarach, darparodd Swyddfa'r Comisiynydd Plant fanylion pellach a oedd yn nodi'r meysydd posibl y byddai eu hymateb i Lywodraeth Cymru yn eu cynnwys, ac yn nodi bod hyn yn debygol o gyfeirio at y ffaith bod y Cod ar y cyfan wedi colli cyfleoedd i brif-ffrydio arferion seiliedig-ar-hawliau i mewn i brofiadau pob dydd plant a phobl ifanc yn eu lleoliad addysg.				
		Ymateb y Pwyllgor (CCUHP: Cydymffurfio gan gyrff llywodraethu) Mae'r Pwyllgor yn falch bod paragraffau 4.16 a 4.17 y Cod yn rhoi arweiniad ar sut y dylai ALlau a byrddau iechyd gyflawni eu dyletswyddau i roi sylw dyledus i CCUHP. Hoffem weld mwy o fanylion am sut y bydd y dyletswyddau hyn yn rhaeadru i gyrff llywodraethu ysgolion a SABau (yn unol â'r ymrwymiad a wnaed gan y Gweinidog yn ystod y broses o graffu ar y Bil). Mae hyn yn arbennig o bwysig oherwydd pryderon am y dull o osod dyletswyddau ar lefel uchel a disgwyl i hyn raeadru i'r lefel isaf ar lawr gwlad. Mae'r Pwyllgor felly o'r farn y dylai'r Cod roi mwy o eglurhad o ran sut y bydd y dyletswyddau ar awdurdodau lleol a chyrff iechyd, i roi sylw dyledus i Gonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a Hawliau Pobl Anabl, yn trosi'n weithredoedd gan ysgolion a SABau ar lawr gwlad.				

Maes trafod 16: Y Tribiwnlys Addysg						
16A) Cylch gorchwyl y Tribiwnlys dros fyrddau iechyd		Diwygiwyd y Bil yng Nghyfnod 2 er mwyn rhoi pŵer i'r Tribiwnlys fynnu bod cyrff iechyd yn darparu tystiolaeth mewn perthynas ag achos sydd ger ei fron, yn ogystal â gwneud argymhellion anghyfrwymol i'r corff iechyd ynghylch a ddylai ddarparu gwasanaethau/sut y dylai eu darparu.	Cyfaddawd yng Nghyfnod 2: gwelliannau LlC i'r Bil mewn ymateb i argymhelliad 38, adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.		Mae'r Cod yn ailadrodd y ddau bŵer sydd ar gael i'r Tribiwnlys yn y Ddeddf. Rhaid i gorff y GIG adrodd yn ôl i'r Tribiwnlys cyn pen 6 wythnos ar ôl i argymhelliad gael ei wneud, gan roi ei ymateb a'i resymau.	Paragraffau 26.20 i 26.21.
		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Mae nifer o randdeiliaid, yn bennaf y rhai sy'n cynrychioli teuluoedd fel SNAP a NDCS, yn dal i **bryderu am y ddwy broses ar wahân** ar gyfer ceisio iawn yn erbyn darparwyr addysg (y Tribiwnlys) ac yn erbyn cyrff iechyd (proses 'Gweithio i Wella' y GIG). Fodd bynnag, dyma'r sefyllfa o dan y Ddeddf a cheir rhywfaint o anogaeth yn sgîl y trefniant i'r Tribiwnlys gyhoeddi argymhellion anghyfrwymol i gyrff iechyd. Fel y dywedodd SNAP: *"I think you have made the best of what we've got here, because I think that NHS boards having to report back is good. I think local authorities having to act on directions within certain times is good, because they don't always, and quite often, parents come to us because even though a tribunal has been upheld in their favour and a direction has been made, it's not necessarily acted on and then they have to go through a whole complaints process again. So, I think with what we've got here, there are some positives. "* Fodd bynnag, tynnodd NDCS sylw at ddiffyg eglurder ynghylch pa lwybr y dylai teuluoedd ei ddefnyddio a rhybuddiodd ynghylch **goblygiadau posibl ar gyfer yr amserlen wyth wythnos** sydd gan deuluoedd i apelio ar ôl cael penderfyniad ar ADY (paragraff 26.14 o'r Cod drafft): *"There's still not much clarity around when you would take one through 'putting things right' and when you would take one though education tribunal Wales, but potentially, families are going to be encouraged to go through the 'putting things right' approach, because it's softer. And my concern is that (1) there's confusion around it, but (2) that could potentially have ramifications and knock-on effects in terms of timescales and ability to lodge an appeal, which I don't feel are very clear."*				

		Gan atgyfnerthu'r pwynt hwn, ychwanegodd SNAP: *"It's that thing that if schools and local authorities are pushing parents into the health complaints process,* ***their two-month period will run out****. (…) if they do look for mitigation in one area, it shouldn't prevent them from having the two months at the end of that process, if necessary, but the two months start there … not the decision." [The draft Educational for Tribunal Wales Regulations 2019 specify an eight-week period.]*				
		Ymateb y Pwyllgor (Cylch gorchwyl y tribiwnlys dros fyrddau iechyd) Yn ystod y broses o graffu ar y Bil, argymhellodd y Pwyllgor fod y Tribiwnlys yn cael cylch gorchwyl i gyfarwyddo cyrff iechyd. Er bod hyn wedi cael ei wrthod, roedd yn dda gennym bod y Bil wedi cael ei ddiwygio er mwyn rhoi pŵer i'r Tribiwnlys fynnu bod cyrff iechyd yn darparu tystiolaeth mewn perthynas ag achos sydd ger ei fron, yn ogystal â chyflwyno argymhellion anghyfrwymol i'r corff iechyd ynghylch a ddylai ddarparu gwasanaethau/sut y dylai eu darparu. Mae hyn, fodd bynnag, yn golygu bod dwy broses apelio yn dal i fodoli – Tribiwnlys Addysg Cymru a Gweithio i Wella – a mynegwyd pryderon ynghylch hyn. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod y sefyllfa gyfreithiol, ac nad yw'n dymuno ailagor y ddadl ynghylch y ffaith bod gan y Tribiwnlys gylch gorchwyl i gyfarwyddo cyrff iechyd, credwn y dylai'r Cod roi arweiniad cliriach ynghylch y berthynas rhwng y ddwy broses apelio i helpu i sicrhau bod teuluoedd yn cael gwybodaeth a chyngor addas er mwyn iddynt allu gwneud penderfyniad gwybodus ynglŷn â pha un y maent yn dymuno ei defnyddio. Mae'r Pwyllgor hefyd yn pryderu nad yw'n glir o fanylion y Cod a yw'r cyfnod o wyth wythnos sydd gan deuluoedd i gyflwyno apêl i'r Tribiwnlys, o dan Reoliadau Tribiwnlys Addysg drafft Cymru 2019, yn cyd-redeg ag unrhyw gŵyn y mae teulu wedi'i chyfleu trwy broses y GIG ynteu'n olynol i hynny. Mae'r Pwyllgor yn credu'n gryf y dylai hyn fod yn olynol yn hytrach na chydamserol, ac y dylai'r Cod egluro hyn.				
16B) Cyfansoddiad Tribiwnlys		Dywedodd LlC mewn ymateb i'r adroddiad Cyfnod 1 y byddai'n ystyried sut y gellid ymgorffori'r farn ac arbenigedd clinigol fel rhan o aelodaeth y Tribiwnlys, pe rhoddid pwerau i'r Tribiwnlys gyfarwyddo cyrff iechyd.	Ymateb i Arg. 39, Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg.		Gellid ystyried bod hyn yn ddiangen gan mai dim ond rhoi argymhellion anghyfrwymol i gyrff iechyd y gall y Tribiwnlys ei wneud a chan nad oes pwerau ganddo i'w gorfodi i ddarparu gwasanaethau. Mae'r Rheoliadau Drafft yn darparu bod Panel Tribiwnlys yn cynnwys Cadeirydd (fel arfer y Llywydd) a dau aelod lleyg a	Rheoliad 11, Rheoliadau drafft

					ddewiswyd gan y Cadeirydd o'r panel lleyg. Mae'r Rheoliadau Drafft yn mynnu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi'u hargyhoeddi bod gan ddigon o aelodau o'r panel lleyg wybodaeth a phrofiad cyfredol o blant a phobl ifanc, ac ADY neu anableddau, neu'r ddau os yw'n ofynnol.	Rheoliad 9, Rheoliadau drafft
		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd yn credu bod hwn yn fater perthnasol o hyd, er na all y Tribiwnlys gyflwyno cyfarwyddiadau cyfrwymol i fyrddau iechyd: *"I think it's still relevant. I know that it's the non-binding recommendations to health bodies, but I think it's still appropriate to consider the composition of tribunal, looking at the evidence base, looking at linking it to intended outcomes. I think that's not a bad thing. "*				
		Ymateb y Pwyllgor (Cyfansoddiad y Tribiwnlys) Yn ystod y broses o graffu ar y Bil, cododd y Pwyllgor fater cynnwys arbenigedd clinigol perthnasol ar y Tribiwnlys - ond roedd hyn yn gysylltiedig yn bennaf â'r argymhelliad a oedd yn galw am roi cylch gorchwyl i'r Tribiwnlys gyfarwyddo cyrff iechyd. Er bod y Pwyllgor yn cydnabod y sefyllfa o ran cylch gorchwyl y Tribiwnlys a nodir yn y Ddeddf, rydym yn cytuno â'r sylwadau a wnaed yn ystod trafodaethau'r gweithgor. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Rheoliadau Drafft Tribiwnlys Addysg Cymru yn mynnu bod yn rhaid i Weinidogion Cymru fod wedi'u hargyhoeddi bod gan ddigon o aelodau o'r panel lleyg wybodaeth a phrofiad cyfredol o blant a phobl ifanc, ac ADY neu anableddau, neu'r ddau os yw'n ofynnol. Er na ddylid cynnwys hyn yn y Cod ei hun o reidrwydd, credwn y dylai ystyriaeth Gweinidogion Cymru wrth ystyried a oes gan y panel Tribiwnlys wybodaeth a phrofiad digonol gynnwys barn glinigol ac arbenigedd ar faterion iechyd lle mae'r rhain yn debygol o fod yn berthnasol, gan y byddai hyn yn rhoi nerth i unrhyw argymhellion i gyrff iechyd a wnaed gan y Tribiwnlys.				
16C) Cydymffurfio â gorchmynion y Tribiwnlys		Bod y Cod yn cynnwys canllawiau digonol a chadarn ynghylch ALlau a byrddau iechyd yn adrodd yn ōl i'r Tribiwnlys ar y camau y maent	Wrth wrthsefyll gwelliannau yng Nghyfnod 2, cyflwynodd y		Mae'r Cod yn ailadrodd y cyfnod o 14 diwrnod sydd gan gyrff llywodraethu ac ALlau i adrodd wrth y Tribiwnlys ar eu cydymffurfiaeth â gorchymyn.	Paragraff 26.18

		wedi'u cymryd i gydymffurfio â gorchymyn gan y Tribiwnlys. Yn ychwanegol at y gwelliant yng Nghyfnod 2, diwygiwyd y Bil ymhellach yng Nghyfnod 3 er mwyn galluogi'r Tribiwnlys i rannu gwybodaeth gyda Llywodraeth Cymru sy'n nodi a gydymffurfiwyd â gorchmynion y Tribiwnlys, neu a ddilynwyd argymhellion.	Gweinidog, Alun Davies, ei welliant ei hun, gwelliant 146, a oedd yn ei gwneud yn ofynnol i SABau ac ALlau adrodd wrth y Tribiwnlys o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad yr oedd yn rhaid cydymffurfio â'r Gorchymyn. Dywedodd y byddai'r Cod yn rhoi arweiniad pellach ar hyn.		Mae'r Cod yn mynnu bod cyrff GIG yn adrodd wrth y Tribiwnlys ar eu hymateb i argymhelliad o fewn 6 wythnos i'r dyddiad y gwnaeth y Tribiwnlys yr argymhelliad.	Paragraff 26.21
		Crynodeb o farn rhanddeiliaid Roedd Adran 77 y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr a chyrff perthnasol adrodd ar eu hymateb i gyfarwyddyd / argymhelliad Tribiwnlys. Mae adran 78 yn galluogi'r Tribiwnlys i rannu gwybodaeth gyda Llywodraeth Cymru wrth ystyried a yw awdurdodau lleol wedi cydymffurfio â gorchmynion ac a yw cyrff iechyd wedi dilyn argymhellion. Mae rhanddeiliaid yn credu y bydd y ddau drefniant hwn **yn bwysig iawn i werthuso effeithiolrwydd y system Tribiwnlys**.				
		Ymateb y Pwyllgor (Cydymffurfio â gorchmynion Tribiwnlys) Yn ystod y broses graffu, diwygiwyd y Bil i alluogi'r Tribiwnlys i rannu gwybodaeth gyda Llywodraeth Cymru wrth ystyried a gydymffurfiwyd â gorchmynion Tribiwnlys. Rydym yn falch bod gwybodaeth wedi'i chynnwys yn y Cod ynghylch dyletswyddau cyrff perthnasol i adrodd wrth y Tribiwnlys ar gydymffurfio. Er na ddylid cynnwys hyn yn y Cod ei hun o reidrwydd, mae'r Pwyllgor yn credu ei bod yn bwysig bod Llywodraeth Cymru yn mynd ati'n fanwl i fonitro lefel cydymffurfiaeth â gorchmynion ac argymhellion y Tribiwnlys er mwyn gwerthuso effeithiolrwydd system y Tribiwnlys, ac yn cyhoeddi adroddiadau rheolaidd ar ganlyniad gwaith monitro a gwerthuso o'r fath.				

Cyfeiriadau: Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (Mai 2017) ac Ymateb Llywodraeth Cymru (Gorffennaf 2017); Adroddiad Cyfnod 1 y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol (Mai 2017) ac Ymateb Llywodraeth Cymru (Mai 2017); Trafodion Cyfnod 2, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg 4 Hydref 2017 a 12 Hydref 2017; Trafodion Cyfnod 3, Cyfarfod Llawn 21 Tachwedd 2017; Gweithgor Cod ADY Drafft y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 13 Chwefror 2019 (trawsgrifiad heb ei gyhoeddi).

Rhan 2: Materion eraill a godwyd gan y gweithgor

Mater	Beth mae rhanddeiliaid wedi'i ddweud?	Beth yw'r sefyllfa yn y Ddeddf / Cod?
a) Cydlynwyr ADY	Mae NDCS yn siomedig nad yw'r Cod yn mynd ymhellach o ran **rhagnodi'r cymwysterau a'r profiad gofynnol** ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae NDCS hefyd yn pryderu am y gofynion ar rôl y Cydlynydd ADY ac yn awgrymu a ddylid defnyddio rhyw fath o fecanwaith i benderfynu lle mae ar ysgol angen mwy nag un Cydlynydd ADY. (Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion a gynhelir a sefydliadau addysg bellach ddynodi person neu fwy nag un person i fod yn Gydlynydd ADY.) Dywedodd Cymdeithas y Seicolegwyr Addysg y byddai "pwysau aruthrol" ar Gydlynwyr ADY ac nad oeddent yn gwybod sut y byddent yn ymdopi. Roeddent yn cytuno â NDCS bod gofynion o ran cymwysterau a hyfforddiant ar gyfer Cydlynwyr ADY wedi cael eu "gwanhau" ac roeddent yn dweud eu bod yn "anffodus" a bod "cyfle wedi'i golli" o ran sut y mae ADY yn cael eu cynnwys mewn hyfforddiant cychwynnol athrawon.	Mae'r rheoliadau drafft ar gyfer Cydlynwyr ADY, y mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori arnynt ochr yn ochr â'r Cod drafft, yn ei gwneud yn ofynnol i Gydlynwyr ADY fod naill ai'n athro/athrawes ysgol neu athro/athrawes addysg bellach sydd wedi'u cofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg (CGA) neu'n Gydlynydd AAA cyfredol. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r dull hwn gan bod arni'n ddelfrydol eisiau i Gydlynydd ADY fod yn athro cymwysedig ac felly bod â mynediad da at uwch dîm rheoli'r ysgol. Fodd bynnag, nid yw'n dymuno rhagwahardd y gyfran fach o Gydlynwyr AAA presennol nad ydynt yn athrawon cymwysedig ond sydd hen ennill eu plwyf yn eu hysgol ac sy'n cyflawni'r rôl yn effeithiol. Ar ôl cyflwyno'r Bil ym mis Rhagfyr 2017, bwriad Llywodraeth Cymru oedd defnyddio'r pwerau gwneud rheoliadau hyn i'w gwneud yn ofynnol i Gydlynwyr ADY feddu ar gymhwyster ar lefel Meistr. Yn ystod taith y Bil drwy'r Cynulliad, mabwysiadodd **ddull mwy hyblyg** (yn rhannol o ganlyniad i argymhellion y Pwyllgor hwn na ddylai'r gofynion fod yn rhy gul o ran pwy allai gyflawni'r rôl).
	Ymateb y Pwyllgor (Cydlynwyr ADY) Nid yw'n ymddangos bod y rheoliadau drafft sy'n gysylltiedig â'r Ddeddf ADY yn rhagnodi beth yw'r profiad neu'r hyfforddiant ADY-benodol y mae'n rhaid i athro cymwysedig fod wedi'i gael i ddod yn Gydlynydd ADY - mae hyn hefyd yn aneglur o gynnwys y Cod. Efallai yr hoffai Llywodraeth Cymru gynnwys manylion yn y Cod am y math o hyfforddiant a fyddai'n bodloni'r gofynion, ond pwysleisio na fyddai'r rhain yn gynhwysfawr nac yn neilltuedig. Wrth wneud yr argymhelliad hwn, mae'r Pwyllgor yn ymwybodol o'n safbwynt cynharach y dylid cynnal hyblygrwydd fel nad yw'r darpariaethau perthnasol yn rhy gul o ran pwy allai gyflawni'r rôl Cydlynydd ADY.	

b) Hawl dysgwyr byddar i gael CDU	Cred NDCS yn gryf y dylid ystyried bob amser bod gan blant a phobl ifanc byddar ADY ac felly bod ganddynt hawl i gael CDU. Felly, maent yn croesawu'r gydnabyddiaeth ym mharagraff 7.23 o'r Cod drafft bod rhai mathau o anabledd sy'n golygu ei bod yn fwy tebygol bod gan ddysgwr ADY (er y byddai'n well ganddynt pe bai'r geiriau 'ei bod yn debygol y bydd gan y dysgwr ADY' yn cael eu ddisodli â'r geiriau 'y bydd gan y dysgwr bob amser ADY'). Fodd bynnag, nid ydynt yn ffafrio cysylltu hyn â'r **gofrestr y mae'n rhaid i bob awdurdod lleol ei chynnal** (o dan Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014) o'r rhai yn eu hardal sydd â nam ar eu golwg neu eu clyw. Mae NDCS yn dweud bod y gofrestr hon yn wirfoddol ac maent yn dynodi nad yw llawer o bobl sydd â nam ar eu golwg neu eu clyw yn eu hystyried eu hunain felly ac nad ydynt ar y gofrestr o ganlyniad. Felly, byddai'n well gan NDCS pe na bai'r Cod drafft yn cyfeirio at y gofrestr a phe bai yn hytrach yn canolbwyntio ar y diffiniad yn y Ddeddf.	**Nid yw'r** cyfeiriad at gofrestr yr awdurdod lleol y cyfeirir ato ym mharagraff 7.23 o'r Cod drafft **yn disodli'r diffiniad o ADY** yn adran 2 o'r Ddeddf. Yn hytrach, mae'n nodi bod plant neu bobl ifanc ar y gofrestr hon yn fwy tebygol o fod ag ADY gan eu bod yn fwy tebygol o fod ag anabledd sy'n eu rhwystro neu'n eu hatal rhag manteisio ar yr addysg a'r hyfforddiant sydd ar gael yn gyffredinol (ail ran y diffiniad o ADY yn adran 2). Felly, nid yw'r ffaith syml nad yw dysgwr sydd â nam ar ei olwg neu ei glyw ar y gofrestr yn golygu na fyddai'n gymwys i gael CDU. Os yw'n bodloni'r diffiniad o ADY bydd yn gymwys beth bynnag.
	Ymateb y Pwyllgor (Hawl dysgwyr byddar i gael CDU) Defnyddir y cyfeiriad ym mharagraff 7.23 y Cod at gofrestr yr awdurdod lleol fel enghraifft i amlygu'r mathau o anabledd lle mae'n debygol y bydd gan ddysgwyr ADY, a gall y Pwyllgor weld mantais cynnwys enghraifft o'r fath yn y Cod. Fodd bynnag, rydym yn deall y pryderon a godwyd gan NDCS y bydd dysgwyr â nam ar eu golwg neu eu clyw nad ydynt ar y gofrestr. Credwn felly, os oes cyfeiriad at y gofrestr wedi'i gynnwys yn y Cod, er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, y dylai'r Cod hefyd ei gwneud yn glir bod y diffiniad yn y Ddeddf yn cael blaenoriaeth ac na ddylai awdurdodau lleol ddibynnu ar y gofrestr fel ffordd o adnabod pobl ag anableddau sydd ag ADY. Natur yr anabledd ei hun, yn unol â'r diffiniad o ADY yn adran 2 o'r Ddeddf, sy'n golygu bod dysgwr yn gymwys i gael CDU.	
c) Cyfeirio at	Mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd yn pwysleisio bod gan wasanaethau Therapi Iaith a Lleferydd **system gyfeirio agored** ac roeddent yn cwestiynu a yw'r tabl	Mae paragraff 15.25 y Cod yn nodi: 'Caiff awdurdod lleol neu sefydliad addysg bellach gyfeirio mater i gorff GIG, gan ofyn iddo a oes unrhyw driniaeth neu wasanaeth perthnasol sy'n debygol o

wasanaethau iechyd	ym mharagraff 15.25 ar dudalen 181 o'r Cod drafft yn golygu mai dim ond awdurdod lleol neu SAB sy'n gallu atgyfeirio dysgwr ar gyfer darpariaeth ddysgu ychwanegol y GIG. Ni fyddai Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd yn cefnogi cyfyngiad o'r fath.	helpu i fynd i'r afael ag ADY plentyn neu berson ifanc. Byddai'n gwneud hyn pan fyddai'n ystyried y gallai corff GIG fod mewn sefyllfa i gyflwyno DDdY i ddiwallu anghenion plentyn neu berson ifanc. Ystyr triniaeth neu wasanaeth perthnasol yw triniaeth neu wasanaeth y byddai corff GIG yn ei ddarparu'n arferol fel rhan o wasanaeth iechyd cynhwysfawr Cymru.'
	Ymateb y Pwyllgor (Atgyfeirio at wasanaethau iechyd) Cred y Pwyllgor y gellid cryfhau paragraff 15.25 y Cod er mwyn egluro ymhellach ai dim ond awdurdod lleol neu SAB all gyfeirio mater at un o gyrff y GIG. Er ei fod yn cydnabod nad yw'r Cod wedi'i anelu'n benodol at rieni, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai'r Cod nodi'r opsiynau eraill sydd gan deulu (h.y. cyflwyno eu cais eu hunain i'r GIG). Mae'r Pwyllgor hefyd yn credu y dylid ei gwneud yn glir a all meddyg teulu neu ymwelydd iechyd gyfeirio dysgwr at wasanaethau eraill y GIG ar gyfer darpariaeth ddysgu ychwanegol.	
d) Diffiniad o'r blynyddoedd cynnar	Mae Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd yn awgrymu y byddai'n ddefnyddiol pe gellid diffinio'r 'blynyddoedd cynnar' at ddibenion y Cod. Maen nhw'n dweud **bod y diffiniad o hyn yn anghyson** yn y Cod drafft, er enghraifft 'o dan oedran ysgol gorfodol', heb amodi mai dim ond pan nad ydynt yn gyfrifoldeb i gorff llywodraethu ysgol y mae hyn.	Nid yw'r Ddeddf yn diffinio'r 'blynyddoedd cynnar' yn benodol. Mae Adran 62 o'r Ddeddf yn golygu bod cyfrifoldebau Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yn cwmpasu plant **o dan oedran ysgol gorfodol (y tymor ysgol ar ôl eu pen-blwydd yn bump oed) nad ydynt yn mynychu ysgol a gynhelir**. Y diffiniad hwn a ddefnyddir yn y bennod berthnasol yn y Cod (pennod 8). Fodd bynnag, mae'r Cod yn cyfeirio at 'y blynyddoedd cynnar' mewn perthynas â nifer o'i ddarpariaethau y tu allan i rôl Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar.
	Ymateb y Pwyllgor (Diffiniad o'r blynyddoedd cynnar) Mae'r diffiniad a ddefnyddir ym mhennod 8 o'r Cod mewn perthynas â rôl Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar yr un fath ag yn Adran 62 o'r Ddeddf. Fodd bynnag, mae'r Cod hefyd yn cyfeirio at y 'blynyddoedd cynnar' mewn perthynas â nifer o'i ddarpariaethau – y tu allan i rôl Swyddog Arweiniol ADY y Blynyddoedd Cynnar. Er mwyn osgoi unrhyw ddryswch ynghylch yr hyn a olygir gan 'y blynyddoedd cynnar', cred y Pwyllgor y dylai'r Cod ddatgan yn glir beth yw ystyr 'blynyddoedd cynnar' lle bynnag y cyfeirir at hyn yn y Cod a defnyddio'r diffiniad llawn ym mhob cyfeiriad. Fel arall, gallai'r Cod gynnwys datganiad clir mewn man amlwg ynghylch yr hyn a olygir gan y blynyddoedd cynnar drwyddi draw yn y ddogfen.	

e) Defnyddio canllawiau a sefydlwyd yn flaenorol ar arfer da	Dywedodd Plant yng Nghymru fod Llywodraeth Cymru wedi gwario 'llawer o arian' yn cyflwyno rhaglenni fel y **rhaglen cymorth cynnar** a **gweithwyr allweddol wrth bontio i oedolaeth** ond ymddengys bod y rhain wedi'u gadael. Meddai Plant yng Nghymru: *"There's no reference to all the good work that those programmes have actually completed, and how they could be put into practice, and the findings from those programmes are still relevant today. From my point of view, it was just a **sheer waste of Welsh Government funding** bringing in those programmes and then just completely **forgetting** about them."*	Mae Llywodraeth Cymru wedi dweud mai 'Cod' yn hytrach na 'Chod Ymarfer' fel y Cod Ymarfer AAA cyfredol yw'r ddogfen. Gan hynny, nid yw'n cynnwys astudiaethau achos o arfer gorau (er y bydd y rhain ar gael ar wahân) ar y sail bod ymarfer yn esblygu dros amser a bod y Cod wedi'i fwriadu i fod yn ddogfen hirdymor, barhaol. Mae hwn yn fater y mae Plant yng Nghymru wedi'i godi o'r blaen, yn ystod y gwaith craffu cyn deddfu ar y Bil drafft yn 2015 ac yn ystod y broses o graffu ar y Bil yn 2017.
	Ymateb y Pwyllgor (Defnyddio canllawiau a sefydlwyd yn flaenorol ar arfer da) Er bod y Pwyllgor yn cydnabod bod y Cod ADY drafft wedi'i fwriadu i fod yn 'God' yn hytrach na 'Chod Ymarfer', rydym yn pryderu nad yw'n ymddangos bod digon o ddefnydd yn cael ei wneud o waith da blaenorol mewn rhaglenni fel y 'rhaglen cymorth cynnar' a 'gweithwyr allweddol wrth bontio i oedolaeth'. Credwn y dylai Llywodraeth Cymru wneud defnydd effeithlon o ganllawiau a gwaith sydd eisoes wedi ennill eu plwyf.	
f) Cyllid	Amlygodd CLlLC faint yr her o ran gweithredu'r system newydd o ystyried lefel y cyllid sydd ar gael: *"And running underneath all of this is funding, because there is no additional money for any extra provision, extra anything. All of the money—the £20 million that the Ministers have promised—is all being spent on the transformation leads and training. If we're to meet what is effectively a demand-led needs-based system then **people have to wake up and realise that costs**—if we are to do what the Act wants us to be able to do for all of those children with ALN. "*	Mae hyn yn ymwneud â'r mater ym maes trafod 1, sef a yw pwysau cyllid yn golygu na fydd modd darparu'r system ADY newydd o CDUiau ar draws yr ystod lawn o ddysgwyr ag ADY (tua 100,000). Mae'r Pwyllgor yn cael diweddariadau chwarterol gan Lywodraeth Cymru ar gynnydd y Rhaglen Trawsnewid ADY (y mae'r Ddeddf yn rhan ohoni), sydd wedi cael **cyllideb o £20 miliwn**. Wrth graffu ar y Bil, dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'r ddeddfwriaeth yn niwtral o ran costau, gan y **byddai arbedion o lai o anghydfodau a llai o wrthdaro yn gwrthbwyso** costau darpariaeth well.

	Cododd Coleg Brenhinol y Therapyddion Galwedigaethol fater adnoddau hefyd, gan gynnwys darparu offer angenrheidiol a sut y byddai hyn yn cael ei ariannu.	Mae hon hefyd yn thema sy'n dod i'r amlwg yn yr ymchwiliad i Gyllid Ysgolion lle mae ysgolion ac awdurdodau lleol wedi amlygu'r anawsterau posibl y byddant yn eu cael wrth ariannu'r broses o roi'r Ddeddf ADY ar waith.
	Ymateb y Pwyllgor (Cyllid) Er bod y Pwyllgor yn cydnabod nad yw hyn o reidrwydd yn fater sy'n ymwneud â'r Cod ADY ei hun, rydym yn eithriadol o bryderus bod perygl bod adnoddau annigonol (boed yn gyllid neu'n staff) yn bygwth y gallu i roi'r Ddeddf ar waith yn llwyddiannus a chyflawni'n llwyddiannus yn erbyn y Cod. Mae'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar hyn o bryd yn cynnal Ymchwiliad i Gyllid Ysgolion, ac mae rhanddeiliaid wedi codi hyn fel pryder yn ystod sesiynau tystiolaeth. Felly, bydd y Pwyllgor yn ystyried hyn ymhellach wrth i'r Ymchwiliad hwnnw fynd rhagddo. Gweler hefyd sylwadau penodol y Pwyllgor ar yr effaith y gallai cyllid / adnoddau annigonol ei chael ar sut y caiff y diffiniad o ADY ei gymhwyso, sydd wedi'u cynnwys yn ei ymateb i faes trafod 1.	
g) Defnyddioldeb y Cod	Teimlai nifer o randdeiliaid y byddai'r Cod drafft yn anodd i ymarferwyr ei ddefnyddio oherwydd ei hyd a'r ffordd y caiff ei gyflwyno. Dywedodd Coleg Brenhinol y Therapyddion Iaith a Lleferydd ei fod yn hir ac anhylaw, dywedodd CLlLC ei fod yn un ddogfen sydd ddim yn hawdd iawn i'w defnyddio, tra bod Swyddfa'r Comisiynydd Plant wedi dweud os na fydd yn newid yn sylweddol, y byddai hynny'n **dadrymuso'r rhan fwyaf o addysgwyr proffesiynol rhag cael** mynediad ato.	Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod bod y Cod drafft yn hir ac yn fanwl, gan bwysleisio hefyd mai **dogfen ydyw sydd wedi'i hanelu at ymarferwyr proffesiynol**. Felly, nid yw'r ddogfen wedi'i bwriadi i egluro'r system ADY mewn termau lleyg, gan mai rôl yr wybodaeth ddiduedd a'r cyngor diduedd y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu sicrhau yw hynny. Mae Llywodraeth Cymru wedi cynhyrchu fersiwn 'hawdd i'w darllen' o'i dogfen ymgynghori yn ogystal â fersiwn ar gyfer plant a phobl ifanc.
	Ymateb y Pwyllgor (Defnyddioldeb y Cod) Er mwyn i'r Cod gael ei ddefnyddio'n effeithiol, rhaid iddo gael ei ddeall yn glir gan y rhai y mae wedi'i fwriadu ar ei cyfer. Nodwn fod y Cod drafft yn hir ac yn fanwl, ond derbyniwn ei fod yn ddogfen sydd wedi'i hanelu at ymarferwyr proffesiynol. Gan hynny, nid ei bwrpas yw egluro'r system ADY mewn termau lleyg, gan mai rôl yr wybodaeth ddiduedd a'r cyngor diduedd y mae'n rhaid i awdurdodau lleol eu sicrhau yw hynny. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Cod yn hygyrch ac yn addas at y diben ar gyfer yr ymarferwyr y mae wedi'i fwriadu ar eu cyfer, gan ddal i fod yn ddigon manwl a chynhwysfawr.	

	Mae'r Pwyllgor yn nodi'r trosolwg ym mharagraffau 1.73-1.100 o'r ffordd y mae'r Cod wedi'i strwythuro ond mae'n awgrymu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a fyddai defnyddio mynegai o gymorth wrth ddarllen a defnyddio'r ddogfen.